Rhif: WG30911

Llywodraeth Cymru

Dogfen Ymgynghori

# Ymgynghoriad ar Ganllawiau a Fframwaith Deilliannau'r Rhaglen Cefnogi Pobl

Dyddiad cyhoeddi: 15 Mai 2017
Ymatebion erbyn: 4 Awst 2017

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Gymraeg.
This document is also available in Welsh.

OGL © Crown Copyright

| | |
|---|---|
| **Trosolwg** | Diben yr ymgynghoriad hwn yw casglu barn ynglŷn â'r fersiwn ddrafft o Ganllawiau'r Rhaglen Cefnogi Pobl a'r Fframwaith Deilliannau Drafft. |
| **Sut i ymateb** | Ymatebwch trwy gwblhau'r holiaduron yng nghefn yr adrannau perthnasol a'u hanfon i SupportingPeople@Wales.gsi.gov.uk<br><br>Neu at<br><br>Y Tîm Cefnogi Pobl<br>Polisi Tai<br>Llywodraeth Cymru<br>Parc Busnes Rhydycar<br>Merthyr Tudful<br>CF48 1UZ |
| **Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig** | **Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.** |
| **Manylion Cysylltu** | I gael rhagor o wybodaeth:<br><br>Y Tîm Cefnogi Pobl<br>Polisi Tai<br>Llywodraeth Cymru<br>Parc Busnes Rhydycar<br>Merthyr Tudful<br>CF48 1UZ<br><br>e-bost:<br>Supportingpeople@Wales.gsi.gov.uk<br><br>ffôn: 0300 062 8467/0300 062 8204 |

**Diogelu data**

Sut y byddwn yn defnyddio'r farn a'r wybodaeth a roddwch inni

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth y Cynulliad sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth y Cynulliad yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgyngoriadau ar gyfer y dyfodol.

Mae Llywodraeth y Cynulliad yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hynny'n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, ticiwch y blwch isod. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.

Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn wedi'u cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth y Cynulliad. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu i ni gadw gwybodaeth yn ôl dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n ffaith bwysig i ni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, fe allai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn i ni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

**CYNNWYS**


| | |
|---|---|
| **Crynodeb** | **Tudalen 5** |
| **Canllawiau'r Rhaglen Cefnogi Pobl** | **Tudalen 6** |
| **Ymatebion i gwestiynau am y Canllawiau** | **Tudalen 52** |
| **Y Fframwaith Deilliannau Cefnogi Pobl** | **Tudalen 55** |
| **Ymatebion i gwestiynau am y Fframwaith** | **Tudalen 63** |
| **Atodiad 1** | **Tudalen 69** |

## Rhagair

Dechreuodd Rhaglen Cefnogi Pobl Llywodraeth Cymru yn 2003 ac mae'n rhoi cymorth sy'n gysylltiedig â thai i bobl agored i niwed er mwyn iddynt allu byw mor annibynnol â phosibl. Roedd angen diweddaru'r Canllawiau presennol, *Canllawiau Grant y Rhaglen Cefnogi Pobl (Canllawiau SPPG – Cymru (Mehefin 2013))* i adlewyrchu newidiadau ym mholisi Llywodraeth Cymru ac mewn deddfwriaeth. Mae rhanddeiliaid yn y sector tai wedi bod yn allweddol i ddatblygu'r Canllawiau newydd ochr yn ochr â Llywodraeth Cymru. Mae'r ddogfen yn rhoi cyfeiriad strategol i'r Rhaglen, ac yn cyfrannu at Raglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru: Symud Cymru Ymlaen, yn enwedig anogaeth greu cysylltiadau ag iechyd a hybu twf economaidd, yn unol ag anghenion yr unigolyn.

## Crynodeb

Diben yr ymgynghoriad hwn yw gofyn am eich barn ynglŷn â'r fersiwn ddiwygiedig o *Ganllawiau Grant y Rhaglen Cefnogi Pobl a'r Fframwaith Deilliannau* a luniwyd gan Lywodraeth Cymru mewn partneriaeth gyda rhanddeiliaid allanol.

Mae'r Rhaglen Cefnogi Pobl yn helpu pobl agored i niwed i fyw'n annibynnol yn eu cartref eu hunain neu mewn tai gwarchodol. Yn 2012 cyflwynwyd y rhaglen bresennol yn dilyn uno dau grant gwahanol i greu Grant y Rhaglen Cefnogi Pobl. Datblygwyd canllawiau i gynorthwyo pobl i ddeall y rhaglen, ac i ddefnyddio dull strwythuredig o ddatblygu a chomisiynu gwasanaethau.

Wrth i'r rhaglen barhau i ddatblygu ar gyfer y dyfodol mae'n briodol yn awr ein bod yn adolygu'r Canllawiau gwreiddiol ac yn sicrhau eu bod yn galluogi awdurdodau lleol, sy'n gweinyddu'r cyllid ac yn ei drosglwyddo i ddarparwyr, i barhau i ddarparu gwasanaethau sy'n addas ar gyfer anghenion y bobl agored i niwed y mae'r rhaglen yn ceisio'u cefnogi. Hefyd, bu newidiadau deddfwriaethol sylweddol yng Nghymru gan gynnwys Deddf Tai (Cymru) 2014, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae'r newidiadau hyn wedi cynyddu'r ffocws ar atal yn gynnar a darparu'r gwasanaeth cywir ar gyfer unigolion a hynny ar yr adeg gywir, a rhoi mwy o lais i unigolion o ran y ffordd y maent yn cael cymorth.

Ochr yn ochr â datblygiad y Canllawiau mae hefyd yn amserol ein bod yn ystyried y Fframwaith Deilliannau sydd o gymorth i danategu'r dystiolaeth o effaith y rhaglen. Sefydlwyd y Fframwaith presennol yn 2012 ac mae gwaith wedi cael ei wneud i'w gryfhau ers hynny. Fodd bynnag, mae bellach yn briodol adolygu'r fframwaith, a bod â ffocws cryfach ar nifer lai o ddeilliannau sy'n rhoi adlewyrchiad gwell o ddiben y rhaglen ynghyd ag anghenion yr unigolion sy'n cael cymorth, yn ogystal â helpu i'w wneud yn fwy perthnasol iddynt.

Gan fod y Canllawiau a'r deilliannau wedi'u cysylltu â'i gilydd fel rhan o lywodraethu'r rhaglen, gwnaed penderfyniad i redeg un ymgynghoriad ac iddo ddwy elfen ac anogir rhanddeiliaid i ymateb i'r ddwy elfen lle y bo'n briodol.

Croesewir eich barn ynglŷn â'r Canllawiau drafft a'r fframwaith deilliannau a darperir ffurflen ymateb yng nghefn y naill ddogfen a'r llall.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Y Rhaglen Cefnogi Pobl

Canllawiau Ymarfer
2017

**Awst 2017**

## Cynnwys:


| | |
|---|---|
| **Pennod 1: Cyflwyniad** | **9** |
| Cefnogi Pobl: Atal Digartrefedd, Cefnogi Annibyniaeth | 9 |
| Y weledigaeth | 9 |
| Gwerthoedd | 9 |
| Amcanion Strategol | 10 |
| Fframwaith Ehangach | 10 |
| Deddfwriaeth Berthnasol | 10 |
| Cynyddu Effaith i'r Eithaf | 11 |
| **Pennod 2: Pobl y Mae'r Rhaglen yn Eu Helpu** | **12** |
| Cynnwys pobl sy'n defnyddio gwasanaethau cymorth | 12 |
| Rôl yr awdurdod lleol | 12 |
| Rôl y Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol | 12 |
| Rôl darparwyr | 13 |
| Pwy sy'n gymwys i gael gwasanaethau a gyllidir gan Grant y Rhaglen Cefnogi Pobl ? | 14 |
| Beth sydd ddim yn gymwys | 14 |
| Mathau o wasanaethau sy'n gymwys | 15 |
| Gwasanaethau cymorth sy'n gysylltiedig â thai | 15 |
| Arddull a dull | 15 |
| Deilliannau | 16 |
| Monitro | 16 |
| **Pennod 3: Rhedeg y Rhaglen** | **18** |
| Bwrdd Cynghori Cenedlaethol Cefnogi Pobl | 18 |
| Rôl y Bwrdd | 18 |
| Cysylltiadau polisi Cefnogi Pobl | 19 |
| Amlder cyfarfodydd | 19 |
| Trefniadau'r Ysgrifenyddiaeth | 19 |
| Aelodaeth | 20 |
| Pwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol | 20 |
| Rôl y Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol | 20 |
| Rôl yr awdurdod lleol sy'n Cydlynu | 22 |
| Cydlynydd Datblygu Rhanbarthol | 22 |
| Aelodaeth o'r Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol | 24 |
| Pennu Blaenoriaethau | 24 |

Cyfarfodydd 25
Gwasanaethu a darparu adnoddau 25
Cyfathrebu 25
Rôl Llywodraeth Cymru o ran cefnogi'r Pwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol a threfniadau llywodraethu 26
Trefniadau lleol i gefnogi Pwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol 26
**Pennod 4: Llywodraethu'r Rhaglen 28**
Cylch cynllunio 28
Cynllun strategol rhanbarthol 28
Diweddariad blynyddol yr awdurdod lleol 29
Adroddiad adolygu blynyddol 30
Dull darbodus ac ataliol 31
Gwerth am arian 32
Comisiynu a chydlynu gwasanaethau i gysylltu ag agendâu ehangach 33
Arloesi mewn darparu gwasanaethau cymorth sy'n gysylltiedig â thai 35
Comisiynu a chaffael 37
Codi tâl am wasanaethau Cefnogi Pobl 42
Rheolaeth ariannol 43
**Pennod 5: Dangos Tystiolaeth o Effaith y Rhaglen 50**
Ymchwil a gwerthuso 50
Grŵp llywio ymchwil a gwerthuso 50
Deilliannau 50

| | |
|---|---|
| **Sector (cynulleidfa)** | Mudiadau'r trydydd sector a sefydliadau partner sy'n cefnogi Awdurdodau Lleol, Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, darparwyr gwasanaethau tai eraill, Pwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol Cefnogi Pobl, Byrddau Iechyd Lleol ac asiantaethau darparu eraill. |
| **RHESTR O ACRONYMAU** | |
| **SPPG** | Grant y Rhaglen Cefnogi Pobl |
| **SPNAB** | Bwrdd Cynghori Cenedlaethol Cefnogi Pobl |
| **RCC** | Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol |
| **RDC** | Cydlynydd Datblygu Rhanbarthol |
| **RSP** | Cynllun Strategol Rhanbarthol |
| **SPIN** | Rhwydwaith Gwybodaeth Cefnogi Pobl |
| **SPODG** | Grŵp Deilliannau a Data Cefnogi Pobl |
| **CHC** | Cartrefi Cymunedol Cymru |
| **TUPE** | Rheoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth) 2006 |

| | |
|---|---|
| **AD** | Adnoddau Dynol |
| **GIG** | Y Gwasanaeth Iechyd Gwladol |
| **DU** | Y Deyrnas Unedig |

# Pennod 1: Cyflwyniad

## 1.1 Cefnogi Pobl: Atal Digartrefedd, Cefnogi Annibyniaeth

1.1.1 Rhaglen gan Lywodraeth Cymru sy'n helpu oddeutu 60,000 o bobl y flwyddyn i fyw'n annibynnol yw'r Rhaglen Cefnogi Pobl. Mae'r Canllawiau hyn yn disodli'r canllawiau blaenorol: *Grant y Rhaglen Cefnogi Pobl (SPPG), Canllawiau - Cymru (Mehefin 2013).*

1.1.2 Mae'r Rhaglen Cefnogi Pobl yn rhoi cymorth hanfodol i bobl sy'n eu cael eu hunain dan amgylchiadau anodd iawn. Mae'n helpu rhai o'r bobl fwyaf agored i niwed yng Nghymru i fyw'n annibynnol yn eu cartref eu hunain neu mewn tai â chymorth.

1.1.3 Rhaglen ymyrryd yn gynnar ydyw sy'n atal pobl rhag dod yn ddigartref neu'n helpu pobl ddigartref i ddod o hyd i lety a'i gadw. Mae'n helpu pobl agored i niwed i fynd i'r afael â phroblemau, a'r rheiny weithiau'n broblemau lluosog, megis dyled, cyflogaeth, rheoli tenantiaeth, camddefnyddio sylweddau, a materion iechyd meddwl. Caiff y cymorth ei drefnu ar sail yr hyn y mae ar bobl ei angen, e.e. i helpu i ymdrin â phroblemau iechyd meddwl a/neu gamddefnyddio sylweddau, cymorth i wella'u hiechyd a'u lles a/neu gymorth i gamu ymlaen at, neu'n agosach at, swydd neu gyfle i hyfforddi.

1.1.4 Mae'r Rhaglen yn dal i wneud cyfraniad sylweddol tuag at weithredu Rhan 2 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014, y mae atal digartrefedd yn greiddiol iddi. Mae'r rhaglen yn lleihau neu'n atal yr angen am ymyriadau mwy costus gan y GIG a/neu ofal cymdeithasol ar gyfer unigolion a theuluoedd ac, mewn rhai achosion, pobl sy'n dod yn rhan o'r gyfundrefn cyfiawnder troseddol. Mae'n hanfodol bod gan y Rhaglen weledigaeth glir, fe'i tanategir gan werthoedd cryf ac mae ei hamcanion strategol yn cynnwys y modd y mae'n gweithio gyda rhaglenni eraill Llywodraeth Cymru ac yn eu hategu i gynyddu effeithlonrwydd i'r eithaf.

## 1.2 Y weledigaeth

1.2.1 Gweledigaeth y Rhaglen Cefnogi Pobl yw "Cymru lle nad oes neb yn ddigartref a lle mae gan bawb gartref diogel lle gallant ffynnu".

## 1.3 Gwerthoedd

1.3.1 Mae'r gwerthoedd sy'n tanategu'r Rhaglen yn hanfodol i drefnu'r dull cyffredinol a ddefnyddir ar draws yr holl Sector Tai â Chymorth. Mae ein gwerthoedd hefyd yn darparu meincnod clir i bobl sy'n defnyddio gwasanaethau Cefnogi Pobl ddeall y cymorth y dylent ei ddisgwyl a'r ffordd y dylai gwasanaethau cymorth gael eu darparu:

- Gwneud y bobl ac arnynt angen cymorth yn ganolog i'r Rhaglen, gan alluogi unigolion agored i niwed i fyw bywyd bodlon, prysur ac annibynnol.
- Trin pobl â pharch ac fel arbenigwyr yn eu bywydau eu hunain.
- Gweithio ag empathi, gan wrando a meithrin perthnasoedd yn llawn ymddiriedaeth.

- ➢ Triniaeth deg a chyfleoedd cyfartal i bawb, ni waeth beth fo lefel eu hanghenion.
- ➢ Ymddwyn ag uniondeb, gan fod yn agored, yn dryloyw ac yn ddibynadwy.
- ➢ Bod yn atebol am ein gweithredoedd.
- ➢ Cydweithio a gwerthfawrogi mewnbwn pawb.

### 1.4 Amcanion Strategol

1.4.1 Mae'r Rhaglen Cefnogi Pobl yn chwarae rhan hanfodol yn y gwaith o atal digartrefedd a cheir cydnabyddiaeth i'r cyfraniad y mae'n ei wneud i weithredu Rhan 2 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014; fodd bynnag, caiff hyn ei dangynrychioli mewn datganiadau ystadegol. Bydd hefyd yn gwneud cyfraniad pwysig at y ddeddfwriaeth ataliol a restrir yn 1.6.1.

1.4.2 Bydd cyrff comisiynu a darparwyr gwasanaethau'n canolbwyntio ar ddarparu gwasanaethau sy'n effeithio ar fywydau pobl trwy:

- Atal neu leddfu digartrefedd lle bynnag y bo'n bosibl.
- Cynorthwyo pobl i ddatblygu sgiliau ar gyfer bywyd er mwyn ffynnu'n annibynnol, yn eu cartrefi eu hunain ac fel rhan o'u cymunedau.
- Cynorthwyo pobl i feithrin eu llesiant a'u cydnerthedd i ymdrin â siociau, straeniau ac ansicrwydd yn eu bywydau.
- Lleihau'r galw ar wasanaethau eraill.
- Cynorthwyo pobl i symud allan o dlodi.
- Gwneud y defnydd gorau o adnoddau i gael yr effaith fwyaf posibl.
- Cyflawni perthnasoedd gwell trwy weithio mewn partneriaeth, ar draws ffiniau rhwng sefydliadau, polisïau a sectorau.
- Osgoi neu liniaru effaith profiadau niweidiol yn ystod plentyndod.

1.4.3 Dylai comisiynwyr a darparwyr gwasanaethau Cefnogi Pobl sicrhau bod gwasanaethau'n gyson â'r agenda leol, ranbarthol a chenedlaethol o ran tai, iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, gan gynnwys polisïau a rhaglenni sy'n hybu: cyflogadwyedd, trechu tlodi, iechyd a lles meddyliol da, diogelwch cymunedol a lleihau Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod.

### 1.5 Fframwaith Ehangach

- ➢ Un o gryfderau allweddol y Rhaglen yw ei bod yn ei gwneud yn bosibl rhoi cymorth i'r rhai sydd â'r angen mwyaf am dai.
- ➢ Disgwyliad y bydd amrywiaeth eang o wasanaethau'n cael eu darparu, ond mae angen i gomisiynwyr ddeall diben pob un a sut y mae pob un yn chwarae rhan yn y cyd-destun ehangach.
- ➢ Mae pobl wahanol yn ymateb i arddulliau a dulliau gwahanol o ran cymorth. Dylai comisiynwyr ochel rhag trin pawb yr un fath wrth brynu gwasanaethau.
- ➢ Blaenoriaethu ar sail anghenion ond gyda'r drefn darparu gwasanaethau'n mabwysiadu dull sy'n seiliedig ar gryfderau.

## 1.6 Deddfwriaeth Berthnasol

1.6.1 Ers 2014, mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi pasio pedair deddf y mae atal yn amcan craidd ynddynt:

- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014,
- Rhan 2 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014,
- Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015,
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.

## 1.7 Cynyddu Effaith i'r Eithaf

1.7.1 Yn ystod cyfnod o gynnwrf deddfwriaethol sylweddol, gyda Diwygio Lles yn enghraifft allweddol, mae'r Rhaglen Cefnogi Pobl yn galluogi Llywodraeth Cymru i gyflawni'r amcanion polisi a nodir uchod ac, yn bwysicach na hynny, mae'n golygu bod unigolion sy'n wynebu risg yn gallu cael gafael ar y cymorth y mae'i angen arnynt.

# Pennod 2: Pobl y Mae'r Rhaglen yn Eu Helpu

## 2.1 Cynnwys pobl sy'n defnyddio gwasanaethau cymorth

2.1.1 Ceir disgwyliad y bydd pobl sy'n defnyddio gwasanaethau Cefnogi Pobl yn ganolog i bob agwedd ar y Rhaglen, o gomisiynu a chaffael i drefnu gwasanaethau. Dylid datblygu ystod o ddulliau i sicrhau bod pobl sy'n defnyddio gwasanaethau Cefnogi Pobl, ac a hoffai gael cyfle pellach i gymryd rhan, yn gallu gwneud hynny ac y byddant yn cael adborth ar effaith eu hymwneud.

2.1.2 Mae'r canllawiau hyn yn gwerthfawrogi profiadau gwahanol, sgiliau gwahanol a gwybodaeth wahanol yr holl bartïon cysylltiedig. Mae comisiynwyr, darparwyr, sectorau partner ac yn hollbwysig y bobl sy'n defnyddio gwasanaethau oll yn chwarae rhan yn y gwaith o adnabod pa wasanaethau y mae eu hangen a sut orau y gellir eu darparu.

2.1.3 Mae'n rhaid bod gan bob Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol fframwaith gweithio sy'n sicrhau bod pobl sy'n defnyddio gwasanaethau Cefnogi Pobl yn gallu cael eu cynnwys yn y broses o ddatblygu, comisiynu, datgomisiynu ac adolygu gwasanaethau cymorth ym mha bynnag ffordd sydd fwyaf addas iddynt.

## 2.2 Rôl yr Awdurdod Lleol

2.2.1 Dylai pob awdurdod lleol:

- Ddangos tystiolaeth i'r Pwyllgor Cydweithredol Lleol o'r effaith ar wasanaethau y mae cynnwys pobl sy'n defnyddio gwasanaethau Cefnogi Pobl wedi'i chael;
- Sicrhau bod profiad y rhai sy'n defnyddio gwasanaethau Cefnogi Pobl yn cyfrannu at ddatblygu prosiectau a gwelliannau i wasanaethau y cytunwyd arnynt yn y Cynllun Strategol Rhanbarthol (caiff y Cynllun Strategol Rhanbarthol ei egluro ym Mhennod 4);
- Sicrhau bod mewnbwn gan bobl sy'n defnyddio gwasanaethau Cefnogi Pobl yn cael ei gynnwys wrth ddatblygu manylebau gwasanaethau ac wrth gomisiynu, ailfodelu a datgomisiynu gwasanaethau, fel bod unrhyw ganlyniadau anfwriadol yn gallu cael eu hadnabod a'u hystyried. Mae'n rhaid adrodd ar hyn wrth y Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol.
- Sicrhau bod contractau ar gyfer gwasanaethau'n cynnwys yr angen i ddarparwyr gynnwys pobl sy'n defnyddio gwasanaethau Cefnogi Pobl wrth ddatblygu, monitro a gwerthuso gwasanaethau. Hefyd, dylai'r arfer o gynnwys pobl sy'n defnyddio gwasanaethau Cefnogi Pobl gael ei ehangu i bob agwedd ar wasanaethau gan gynnwys, ymhlith agweddau eraill, recriwtio staff.
- Dangos sut y maent wedi cynnwys pobl sy'n defnyddio gwasanaethau Cefnogi Pobl yn y broses o ddatblygu, comisiynu, monitro a gwerthuso gwasanaethau.

## 2.3 Rôl y Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol

2.3.1 Dylai pob Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol:

- Adnabod ffyrdd allweddol y gellir ceisio syniadau ac adborth;
- cynnal ymgynghoriadau/fforymau/digwyddiadau ac ati lle gellir rhannu gwybodaeth a chasglu barn pobl sy'n defnyddio gwasanaethau Cefnogi Pobl;
- Sicrhau bod profiadau pobl sy'n defnyddio gwasanaethau Cefnogi Pobl yn cyfrannu at ddatblygu prosiectau a gwelliannau i wasanaethau y cytunwyd arnynt yn y Cynllun Strategol Rhanbarthol;
- Sicrhau bod comisiynwyr a darparwyr gwasanaethau'n cynorthwyo pobl sy'n defnyddio gwasanaethau Cefnogi Pobl i roi cymorth i ddatblygu gwasanaethau lleol a rhanbarthol;
- Ystyried tystiolaeth gan gomisiynwyr a darparwyr gwasanaethau o ran sut y maent yn cynnwys pobl sy'n defnyddio gwasanaethau Cefnogi Pobl a sicrhau eu bod yn adrodd yn ôl wrth y bobl sy'n defnyddio gwasanaethau Cefnogi Pobl am effaith eu hymwneud;
- Bod â fframwaith gweithiol ar gyfer cynnwys pobl sy'n defnyddio gwasanaethau Cefnogi Pobl a strwythur sy'n sicrhau bod hwn yn cysylltu â'r awdurdod lleol a darparwyr;
- Gweithio gyda darparwyr i dynnu ar eu sgiliau a'u harbenigedd, i sicrhau yr ymgysylltir yn effeithiol â phobl sy'n defnyddio gwasanaethau Cefnogi Pobl;
- Annog pobl sy'n defnyddio gwasanaethau Cefnogi Pobl i fod yn aelodau o'r Bwrdd, neu sicrhau bod hyrwyddwyr defnyddwyr gwasanaethau Cefnogi Pobl ar y Bwrdd;
- Dangos trwy'r Adolygiad Blynyddol sut y mae pobl sy'n defnyddio gwasanaethau Cefnogi Pobl yn cael eu cynnwys yn y broses o drefnu gwasanaethau ac effaith eu hymwneud.

2.3.2 Bydd Adolygiad Blynyddol y Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol yn adrodd ar y cynnydd ac, yn hollbwysig, deilliannau'r ymwneud gan bobl sy'n defnyddio gwasanaethau Cefnogi Pobl. Dylai hyn gynnwys tystiolaeth bod y bobl hynny:

- Yn meddu ar wybodaeth am y gwasanaethau, rôl yr awdurdod lleol a rôl y Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol;
- Yn gallu adrodd yn ôl ar eu profiad os ydynt yn dymuno, a bod amrywiaeth o opsiynau a dulliau ar gael iddynt er mwyn gwneud hynny;
- Yn gallu defnyddio amrywiaeth o ffyrdd i gyflawni rôl strategol fwy ffurfiol, os ydynt yn dymuno chwarae rhan yn y ffordd honno;
- Yn gallu chwarae rhan mewn ffordd ad-hoc, yn seiliedig ar fuddiant penodol, os mai dyna yw eu dymuniad.

## 2.4 Rôl Darparwyr

2.4.1 Mae'n rhaid i ddarparwyr sicrhau bod pobl sy'n defnyddio gwasanaethau Cefnogi Pobl:

- Yn cael cyfleoedd i ymwneud â gwasanaethau, boed yn ffurfiol neu'n anffurfiol, ac y darperir amrywiaeth o ffyrdd iddynt wneud hynny boed ar sail barhaus neu ad-hoc;
- Yn cael eu cynnwys ym mhob agwedd ar wasanaethau ac yn gallu trefnu gwasanaethau, gan gynnwys pethau megis recriwtio staff;
- Yn cael cymorth priodol i gael mynediad at hyfforddiant i'w galluogi i deimlo'n hyderus am gyfranogi;
- Yn cael eu cynorthwyo i weithio gydag awdurdodau lleol ar gomisiynu, ailfodelu a datgomisiynu;
- Yn cael adborth ar ganlyniadau eu hymwneud.

2.4.2 Mae'n rhaid bod darparwyr yn gallu dangos sut y maent wedi cynnwys pobl sy'n defnyddio gwasanaethau Cefnogi Pobl a'r gwahaniaeth y mae eu hymwneud wedi'i wneud.

### 2.5 Pwy sy'n gymwys i gael gwasanaethau a gyllidir â Grant y Rhaglen Cefnogi Pobl?

- Mae unrhyw bobl ac arnynt angen cymorth sy'n gysylltiedig â thai'n gymwys i gael cymorth sy'n gysylltiedig â thai cyn belled â'u bod yn gymwys i gael arian o bwrs y wlad.
- Mewn egwyddor, ni ddylai unrhyw feini prawf o ran cysylltiad lleol gael eu cymhwyso ar gyfer mynediad at gymorth, ond dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014, mae angen i bob awdurdod lleol gyflawni ei ddyletswyddau o ran tai yng ngoleuni'r adnoddau sydd ar gael.
- Gall y dyletswyddau hyn arwain at ganolbwyntio gwasanaethau cymorth statig ar y rhai â chysylltiad lleol y mae dyletswydd ar yr awdurdod i'w cartrefu. Os mai felly y mae hi, bydd yn cael ei gytuno ar lefel leol fesul gwasanaeth unigol a chan ymgynghori ag awdurdodau cyfagos.

### 2.6 Beth sydd ddim yn gymwys?

2.6.1 Ni all Grant y Rhaglen Cefnogi Pobl gyllido gwasanaethau gofal. Mae'n ategu ac yn ychwanegu at wasanaethau o'r fath, ond ei brif nod yw galluogi pobl sy'n defnyddio'i wasanaethau, nid gofalu amdanynt.

2.6.2 Yn yr un modd, ni ellir ei ddefnyddio i gyllido gwasanaethau cymorth domestig.

2.6.3 Ni all Grant y Rhaglen Cefnogi Pobl gyllido gweithgarwch comisiynu awdurdodau lleol.

2.6.4 Ni ddylai Grant y Rhaglen Cefnogi Pobl gael ei ddefnyddio i gyllido tasgau rheoli tai cyffredinol a fyddai fel arfer yn cael eu cyllido gan renti neu dâl am wasanaeth, e.e.:

- Pennu, casglu a rhoi cyfrif am y rhent a'r taliadau am wasanaeth.
- Sefydlu, dyroddi a gorfodi'r drwydded neu'r cytundeb tenantiaeth.

- Darparu'r elfennau diogelwch a mynediad trwy ddrws o wasanaethau larwm gwifredig, os yw'r rhain yn rhan o'r rhent a'r tâl am wasanaeth.

2.6.5 Fodd bynnag, er gwaethaf yr uchod, gellir ei ddefnyddio o fewn gwasanaeth Grant y Rhaglen Cefnogi Pobl i wneud y canlynol:

- Cefnogi unigolyn neu aelwyd i'w (h)atal rhag dod yn ddigartref dan delerau Deddf Tai (Cymru) 2014.
- Rhoi cymorth i helpu pobl i ddeall, cyflawni a gweithredu'r cyfrifoldebau sy'n rhan o ddal tenantiaeth.
- Cyllido gweithgaredd penodol fesul achos unigol, e.e. ar adeg gynnar y cymorth gallai gynnwys cludo rhywun y mae ei hyder yn isel neu ei fywyd yn ddi-drefn i adran Budd-dal Tai i wneud hawliad am fudd-dal.
- A oes angen inni gynnwys sgiliau, hyfforddiant a chyflogaeth i ddangos Cefnogi Pobl fel rhan o ymgyrch gwrthdlodi Llywodraeth Cymru?

### 2.7 Mathau o Wasanaeth sy'n Gymwys

2.7.1 I egluro pa fathau o wasanaethau sy'n gymwys i gael cyllid o Grant y Rhaglen Cefnogi Pobl, mae'r adran hon yn darparu fframwaith o ran pa drafodaethau, negodiadau a phenderfyniadau y gellir eu gwneud.

2.7.2 Bydd Grant y Rhaglen Cefnogi Pobl yn cael ei ddefnyddio i gyllido'r gwasanaethau hynny a nodir fel blaenoriaethau strategol gan y Pwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol ac a nodir yn eu Cynllun Strategol Rhanbarthol. Dylai prosesau comisiynu awdurdodau lleol fod yn gyson â'r Cynllun Strategol Rhanbarthol ar gyfer eu hardal a'u strategaethau digartrefedd yn y presennol a'r dyfodol dan adran 52 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014, y mae'n ofynnol iddynt fod yn eu lle erbyn 2018.

### 2.8 Gwasanaethau Cymorth sy'n gysylltiedig â Thai

2.8.1 Darperir gwasanaethau Cymorth sy'n gysylltiedig â thai i helpu pobl agored i niwed i ddatblygu neu gynnal y sgiliau a'r hyder sy'n angenrheidiol i fyw mor annibynnol â phosibl. Yn greiddiol iddynt mae atal digartrefedd. Gellir cynnig cymorth i unrhyw un sy'n gymwys, ni waeth beth fo'i grŵp deiliadaeth.

2.8.2 Mae'n rhaid i bobl sy'n gymwys i gael gwasanaethau fod dros 16.

2.8.3 Egwyddorion cymorth sy'n gysylltiedig â thai yw:

- Atal digartrefedd.
- Cynorthwyo pobl i gael llety, ei gadw a'i reoli trwy eu cynorthwyo i ddatblygu neu gynnal y sgiliau a'r hyder angenrheidiol i fyw mor annibynnol â phosibl.
- Osgoi'r angen i bobl fyw mewn lleoliadau sefydliadol amhriodol.

- Rhoi cymorth i bobl sy'n byw, neu sydd â hanes o fyw, bywyd ac iddo batrwm ansefydlog sydd o bosibl wedi cyfrannu at batrymau ymddygiad anhrefnus.

2.8.4 Bydd darparu gwasanaethau cymorth sy'n gysylltiedig â thai'n seiliedig ar anghenion a adnabuwyd neu a ganfuwyd trwy asesiad; mae'n rhaid i'r asesiad hwn fod yn hyblyg a chanolbwyntio ar yr unigolyn. Mae'r Rhaglen yn rhoi anogaeth i arloesi, e.e. ystyried datblygiadau yn rhaglenni tai, cymorth, gofal cymdeithasol, iechyd a Threchu Tlodi Llywodraeth Cymru. Derbynnir bod y gwasanaethau sy'n cyd-fynd â'i gilydd i greu 'cymorth sy'n gysylltiedig â thai' yn eang ac yn amrywiol iawn.

### 2.9 Arddull a Dull

2.9.1 Mae'n rhaid i wasanaethau Cefnogi Pobl fod yn alluogol, a datblygu annibyniaeth rhywun, h.y. 'gwneud gyda' yn hytrach na 'gwneud dros'. Dylai ffocws y gwasanaeth fod ar annog a chynorthwyo'r person i arfer dewis personol a hunanbenderfyniad a phwysleisio'i gryfderau.

2.9.2 Mae'n rhaid i wasanaethau fod â chysylltiadau da â gwasanaethau sy'n rhoi cyfleoedd ar gyfer addysg, hyfforddiant, gwirfoddoli a chyflogaeth ac atgyfeirio neu gyfeirio pobl at y gwasanaethau hynny.

2.9.3 Mae'n rhaid i becynnau cymorth gael eu datblygu a'u cytuno gyda'r person sy'n defnyddio gwasanaethau Cefnogi Pobl ac mae'n rhaid i unrhyw risgiau gael eu hystyried. Dylid cyfyngu i'r eithaf ar y cyfnod y caiff pobl eu cefnogi er mwyn osgoi creu dibyniaeth (e.e. mae gan rai awdurdodau lleol derfynau amser cyn bod achosion yn cael eu hadolygu i gadarnhau'r angen parhaus am gymorth, neu gymorth arall, mwy priodol). Bydd cymorth a gynigir yn cynnwys ymyriadau byrdymor i atal digartrefedd. Dylid ystyried am faint o amser y mae gwasanaeth ar gael ac a yw peth cymorth hirdymor yn ofal mewn gwirionedd neu'n creu dibyniaeth yn hytrach na chreu annibyniaeth.

2.9.4 Ceir cryn hyblygrwydd yn y defnydd o gyllid Cefnogi Pobl, ar yr amod ei fod yn helpu i alluogi pobl i gael neu gynnal llety. Gall hyn gynnwys cyfryngu gyda landlordiaid a theulu, helpu i gael tenantiaeth, paratoi ar gyfer rheoli tenantiaeth, cymorth sy'n gysylltiedig â thai a roddir trwy waith grŵp, a symiau bach o arloesi lle cânt eu defnyddio gyda'r person i wella'i allu i fyw'n fwy annibynnol.

2.9.5 Ceir canllawiau ynghylch comisiynu ym Mhennod 4.

2.9.6 Gall cwestiynau i'w hystyried wrth gomisiynu, adolygu neu nodi a fydd gwasanaeth yn rhan o gylch gorchwyl Grant y Rhaglen Cefnogi Pobl gynnwys y canlynol, ond nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr:

2.9.7 A fydd y cymorth a gynigir:

- Yn atal y person rhag dod yn ddigartref neu'n lleddfu ei ddigartrefedd?
- Yn cynorthwyo pobl i sicrhau llety addas ac ymgartrefu ynddo pan ydynt yn ddigartref?

- Yn atal pobl rhag gorfod symud i lety dros dro neu opsiynau gofal mwy costus?
- Yn cadw pobl yn ddiogel yn y gymuned ac yn eu galluogi i deimlo eu bod ‘ar dir gwastad’?
- Yn cynnwys y sgiliau a’r wybodaeth i ddwyn gwasanaethau arbenigol i mewn ar yr adeg gywir i atal opsiynau mwy costus?
- Yn cwmpasu meysydd allweddol sy’n galluogi unigolyn i sefydlu ei annibyniaeth er mwyn ffynnu, gwella’i les a helpu i drechu tlodi?

### 2.10 Deilliannau

2.10.1 Mae’n rhaid i wasanaethau a gomisiynir ganolbwyntio ar ddeilliannau, a dylai cymorth ganolbwyntio ar ba ddeilliannau fydd yn cael eu cyflawni gan yr unigolion a gefnogir. Dylai’r deilliannau hyn gael eu pennu mewn partneriaeth gyda’r person sy’n defnyddio’r gwasanaeth, yn ysbryd cydgynhyrchu.

### 2.11 Monitro

2.11.1 Lle mae unigolyn wedi cael ei atgyfeirio at wasanaeth, neu lle caiff ei asesu wrth borth gyda’r asesiad hwnnw’n canfod bod yr unigolyn yn wynebu risg o ddigartrefedd neu ei fod eisoes yn ddigartref, mae’n rhaid i’r darparwr / porth atgyfeirio’r unigolyn at wasanaeth digartrefedd yr awdurdod lleol ar gyfer asesiad dan Ran 2 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014.

2.11.2 Lle mae dyletswydd yn ddyledus, bydd darparu gwasanaethau cymorth yn cael ei gofnodi fel cam rhesymol i gyflawni’r ddyletswydd berthnasol, ac mae’n rhaid i ganlyniad y cymorth gael ei wneud yn hysbys i’r tîm digartrefedd dan delerau datganiadau data Digartrefedd statudol.

2.11.3 Bydd disgwyl i wasanaethau sy’n cael Grant y Rhaglen Cefnogi Pobl adrodd yn rheolaidd ar berfformiad a deilliannau wrth yr awdurdod lleol sy’n contractio, a fydd yn defnyddio’r wybodaeth yn ei drefniadau rheoli contract ac yn coladu a darparu gwybodaeth ac adroddiadau perthnasol ar gyfer y Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol fel y bo’n ofynnol. Bydd y cymhwystra, h.y. y defnydd o’r grant, yn destun gwaith craffu ac arolygu gan Lywodraeth Cymru.

# Pennod 3: Rhedeg y Rhaglen

## 3.1 Bwrdd Cynghori Cenedlaethol Cefnogi Pobl

3.1.1 Nod y Bwrdd Cynghori Cenedlaethol Cefnogi Pobl yw cynghori Llywodraeth Cymru, ynghylch cyfeiriad strategol, polisi ac arweiniad ar gyfer y Rhaglen. Wrth wneud hynny bydd y Bwrdd yn sicrhau ei fod yn cyrraedd nodau ac yn cyflawni amcanion y Rhaglen.

## 3.2 Rôl y Bwrdd

- Corff cynghori ydyw a chan hynny mae'n rhaid iddo gael ei rhwymo gan y disgwyliadau rhesymol ar gyfer corff o'r fath. Mae'n bwysig cydnabod nad oes pwerau na swyddogaethau gweithredol gan y Bwrdd.
- Mae'r Bwrdd yn cynghori Llywodraeth Cymru o fewn y cylch gwaith y cytunwyd arno ar ei gyfer gan Ysgrifennydd y Cabinet.
- Ni fydd y Bwrdd yn ymwneud â gweithgarwch gweithredol beunyddiol y Rhaglen oni bai bod Llywodraeth Cymru yn gofyn yn benodol iddo wneud hynny.
- O ystyried natur ymgynghorol y Bwrdd, gall Llywodraeth Cymru wneud penderfyniadau heb gyfeirio at gyngor a ddarparwyd gan y Bwrdd Cynghori Cenedlaethol Cefnogi Pobl.

3.2.1 Bydd rôl y Bwrdd, trwy ymgynghori a chydweithio gyda'r Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol a chyrff eraill, yn cynnwys:

- cynghori Ysgrifennydd y Cabinet ynghylch cyfeiriad polisi cenedlaethol y Rhaglen Cefnogi Pobl,
- monitro datblygiad a pherfformiad Pwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol a'r modd y gweinyddir y Rhaglen Cefnogi Pobl,
- cynghori Ysgrifennydd y Cabinet ynghylch y ffordd briodol o weithredu trefniadau llywodraethu, amodau grant, polisi, canllawiau a deddfwriaeth mewn perthynas â'r Rhaglen Cefnogi Pobl a newidiadau i'r rhain,
- cael adroddiadau rheolaidd gan swyddogion sy'n monitro trefniadau llywodraethu'r Pwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol a darparu adborth ar gyfer y Pwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol,
- cynnal digwyddiadau blynyddol i wrando ar farn a phrofiadau pobl sy'n defnyddio gwasanaethau Cefnogi Pobl, a'u defnyddio i drefnu cyngor ynghylch polisi,
- goruchwylio'r broses o ddosbarthu Grant y Rhaglen Cefnogi Pobl a'r rhaglen ymchwil a gwerthuso,
- rhoi sicrwydd bod prosesau ac arferion yn deg, yn dryloyw, yn gydradd a bod prosesau cynllunio a chaffael wedi'u diffinio'n glir,

- gweithredu cyfeiriad polisi Llywodraeth Cymru yn enwedig ar gyfer gwasanaethau ataliol, iechyd a lles, trechu tlodi, twf economaidd ac atal digartrefedd,
- cynghori Ysgrifennydd y Cabinet a, lle y bo'n briodol, gwneud argymhellion ar gyfer gweithredu.

3.2.2 Bydd yr holl aelodau'n gyfrifol am y canlynol hefyd:

- hyrwyddo cyfeiriad polisi a deddfwriaethol Llywodraeth Cymru yn enwedig o ran ymyrryd yn gynnar ac atal digartrefedd,
- sicrhau bod penderfyniadau a wneir gan y Bwrdd yn dilyn gweithdrefnau priodol, eu bod yn cael eu hategu gan ddigon o wybodaeth o safon uchel a'u bod yn gadarn ac y gellir eu hamddiffyn,
- dangos ymwybyddiaeth o dystiolaeth a dulliau polisi o ran y Rhaglen Cefnogi Pobl mewn rhannau eraill o'r DU a'r tu hwnt er mwyn dysgu o'r rheiny a gwerthuso perfformiad cymharol Cymru,
- sicrhau bod Bwrdd Cynghori Cenedlaethol y Rhaglen Cefnogi Pobl yn gweithredu'n effeithiol ac yn effeithlon o fewn ei gylch gwaith,
- arfer barn annibynnol, gofal rhesymol, sgil a diwydrwydd wrth gyflawni dyletswyddau,
- ystyried a gwneud sylwadau ar adroddiadau gan grwpiau tasg a gorffen ar gynnydd o ran cyflawni cynllun gwaith y Bwrdd,
- adrodd wrth eu cyrff cynrychiadol ar y negeseuon cyfathrebu y cytunwyd arnynt yn y cyfarfodydd,
- lle y bo angen, cynnal cyfrinachedd gwybodaeth a all gael ei rhannu yng nghyfarfodydd y Bwrdd neu mewn gohebiaeth sy'n gysylltiedig â'r Bwrdd.

### 3.3 Cysylltiadau Polisi Cefnogi Pobl

3.3.1 Mae gan y Rhaglen Cefnogi Pobl gysylltiadau polisi agos ar draws Llywodraeth Cymru, e.e. Gwasanaethau Cymdeithasol, Iechyd, Gwasanaethau Prawf a Diogelwch Cymunedol, Trechu Tlodi a Pholisi Gwasanaethau Cyhoeddus. Mae gan swyddogion Llywodraeth Cymru ar y Bwrdd rôl o ran cryfhau cysylltiadau gweithio â rhannau eraill o Lywodraeth Cymru ac i sicrhau bod y Rhaglen wedi'i halinio â datblygiadau polisi yn y dyfodol. Gall aelodau eraill o'r Bwrdd helpu i gysylltu gwahanol raglenni trwy eu cysylltiadau allanol hefyd.

3.3.2 Gall y Bwrdd benderfynu a yw'n mynd i sefydlu is-grwpiau a chyfethol aelodau fel y mae'r amgylchiadau'n mynnu. Gall dewis ffurfio is-grwpiau i fwrw golwg ar dasgau penodol, e.e. lle mae arno angen ffocws polisi neu gyflawni penodol nad oes angen i'r Bwrdd llawn ganolbwyntio arno o bosibl, neu ar feysydd gwaith trawsbynciol. Bydd y Cadeirydd yn penderfynu sut i ddyrannu gwaith a chyfrifoldebau ychwanegol yn barhaus.

3.3.3 Bydd pob is-grŵp/grŵp tasg a gorffen yn adrodd wrth y Bwrdd.

### 3.4 Amlder Cyfarfodydd

3.4.1 Bydd y Bwrdd yn cwrdd yn chwarterol. Bydd cyfarfodydd ychwanegol yn cael eu cynnal pan fo'n ofynnol. O bryd i'w gilydd, bydd y Bwrdd yn adolygu ei effeithiolrwydd gyda golwg ar wneud gwelliannau lle bynnag y bo'n bosibl. Bydd yn datblygu rhaglen waith dreigl.

### 3.5 Trefniadau'r Ysgrifenyddiaeth

3.5.1 Bydd y Bwrdd Cynghori Cenedlaethol Cefnogi Pobl yn cael ei gefnogi gan y Gangen Digartrefedd, Tai â Chymorth a Grantiau Refeniw yn Is-adran Polisi Tai Llywodraeth Cymru.

### 3.6 Aelodaeth

- Dirprwy Gyfarwyddwr, Is-adran Polisi Tai, Llywodraeth Cymru.
- Tri unigolyn annibynnol, y bydd dau ohonynt yn gweithredu fel y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd.
- Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.
- Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru.
- Public Health Wales.
- Cartrefi Cymunedol Cymru.
- Cymorth Cymru.
- Arweinyddiaeth Tai Cymru.
- Gwasanaeth Adsefydlu Cymunedol Cymru.
- Y Rhwydwaith Gwybodaeth Cefnogi Pobl.
- Cadeirydd Grŵp Cyllid ac Ymchwil y Rhaglen Cefnogi Pobl.
- Cadeirydd Grŵp Llywodraethu'r Rhaglen Cefnogi Pobl.

3.6.1 Bydd swyddogion o Lywodraeth Cymru a phartïon eraill yn mynychu yn ôl y gofyn.

### 3.7 Pwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol

3.7.1 Nod a ffocws cyffredinol y Pwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol yw cynnig cyfeiriad strategol a swyddogaeth graffu, ar lefel ranbarthol, i'r Rhaglen Cefnogi Pobl. Byddant yn ateb i Ysgrifennydd y Cabinet o ran cyflawni'r Rhaglen Cefnogi Pobl yn gydweithredol ar lefel ranbarthol a lleol er mwyn sicrhau y darperir y gwasanaethau mwyaf effeithlon ac effeithiol. Bydd y Pwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol yn hysbysu ac yn cynghori Ysgrifennydd y Cabinet ynghylch llunio Cynlluniau Strategol Rhanbarthol arfaethedig y Rhaglen Cefnogi Pobl i ddyrannu'r grant yn ôl blaenoriaethau y cytunwyd arnynt.

### 3.8 Rôl y Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol

- Bydd y Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol yn gweithio yn unol â'i Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth.

3.8.1 Yn fanwl, mae rôl Pwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol yn cynnwys:

3.8.2 Cynghori ynghylch:

- Y modd yr eir ati'n rhanbarthol i gyflawni a chydymffurfio â'r canllawiau strategol cenedlaethol ar gyfer Cefnogi Pobl a holl amodau'r grant.
- Mapio anghenion rhanbarthol a lleol.
- Gweithrediad arfer comisiynu a chaffael.
- Ansawdd gwasanaethau rhanbarthol a lleol, yn enwedig o'i gymharu â Fframwaith Deilliannau Cenedlaethol y Rhaglen Cefnogi Pobl.
- Cynnwys pobl sy'n defnyddio gwasanaethau Cefnogi Pobl yn y broses o drefnu a datblygu gwasanaethau.
- Cyflwyno argymhellion i Lywodraeth Cymru ac Ysgrifennydd y Cabinet ynghylch:
    - Gwariant lleol a rhanbarthol trwy Gynlluniau Gwariant Cefnogi Pobl yn unol â'r blaenoriaethau ar gyfer categorïau o gleientiaid.
    - Amrywio Grant y Rhaglen Cefnogi Pobl rhwng categorïau o gleientiaid (dros 10% o gyfanswm dyraniad grwpiau o gleientiaid) o fewn cynllun lleol a rhanbarthol y Rhaglen Cefnogi Pobl ac o fewn y rhanbarth.

3.8.3 Cynllunio:

- Sicrhau cydbwysedd priodol rhwng gwasanaethau ataliol ac adweithiol.
- Sicrhau amrywiaeth a chydbwysedd priodol o ran gwasanaethau cyffredinol ac arbenigol i ddiwallu anghenion gwahanol grwpiau o gleientiaid.
- Sicrhau bod cysylltiadau ffurfiol â Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, yn ogystal â Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, yn eu lle a sefydlu strwythur llywodraethu cadarn a threfniadau adrodd i sicrhau bod gwaith y Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol yn cyd-fynd â chomisiynu rhanbarthol ehangach.
- Llunio Cynllun Strategol Rhanbarthol, gan gynnwys Cynllun Gwariant, i'w gyflwyno i'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a Llywodraeth Cymru.
- Argymell uwchgyfeirio unrhyw faterion na ellir eu datrys trwy gydweithio lleol a/neu ranbarthol at Lywodraeth Cymru, ac yn y pen draw at Ysgrifennydd y Cabinet yn Llywodraeth Cymru.
- Gweithredu a diweddaru'r Fframweithiau ar gyfer pobl sy'n defnyddio Gwasanaethau Cefnogi Pobl i sicrhau bod pobl sy'n defnyddio gwasanaethau Cefnogi Pobl yn rhan o ddatblygu, comisiynu ac adolygu gwasanaethau cymorth.
- Sicrhau bod awdurdodau lleol yn darparu gwybodaeth fonitro briodol am wariant y Rhaglen Cefnogi Pobl gan gynnwys mynd ati'n brydlon i adnabod tanwariant ac adrodd arno.
- Datblygu ymwybyddiaeth o wasanaethau Cefnogi Pobl lleol, rhanbarthol a chenedlaethol er mwyn adnabod cyfleoedd i gyflawni arbedion

effeithlonrwydd trwy gynllunio a darparu gwasanaethau mewn modd cydgysylltiedig.

- Cydweithio â Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, Pwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol eraill a Byrddau Cynllunio Ardal camddefnyddio sylweddau er mwyn cynllunio a blaenoriaethu gofynion y gwasanaethau i'w gwneud yn bosibl cynnal ymarferion comisiynu a chaffael unigol.
- Cynnal cyswllt â Phwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol eraill i roi cyngor ynghylch cydlynu'r drefn o gomisiynu, caffael a chyllido gwasanaethau trawsranbarthol a chenedlaethol.
- Sicrhau bod Cynlluniau Strategol Rhanbarthol yn ystyried amcanion strategol allweddol megis y rhai mewn strategaethau digartrefedd lleol (i'w cyhoeddi yn 2018) a blaenoriaethau o ran trechu tlodi, gweithgarwch ataliol ym maes gofal cymdeithasol, iechyd a diogelwch cymunedol.
- Alinio â rhaglenni Gwrthdlodi eraill Llywodraeth Cymru.

3.8.4 Gweinyddu:

- Sicrhau trefniadau effeithiol ar gyfer cyfnewid gwybodaeth rhwng aelodau'r Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol (gan nodi gofynion o ran cyfrinachedd) a rhwng Pwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol.
- Cael cofrestr, gan yr awdurdod lleol sy'n cydlynu, o wasanaethau rhanbarthol y gellir eu comisiynu neu eu caffael os bydd cyllid ar gael. Gall y rhain fod yn wasanaethau newydd y mae gofyn eu caffael neu ymwneud ag ehangu gwasanaethau presennol. Mae'n rhaid i'r broses o gymeradwyo gan y Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol fod yn glir.
- Cael gwybodaeth fonitro am gwynion ac uwchgyfeirio unrhyw faterion at Lywodraeth Cymru fel y bo'n briodol.
- Hysbysu'r awdurdod lleol sy'n cydlynu a Llywodraeth Cymru lle mae'r Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol o'r farn bod arfer lleol yn groes i amodau'r Grant. Hefyd, hysbysu Llywodraeth Cymru ynghylch unrhyw anghydfodau o fewn y Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol.
- Parhau i asesu Aelodaeth y Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol i sicrhau cynrychiolaeth gydradd, ac ymwybyddiaeth o holl randdeiliaid y Rhaglen Cefnogi Pobl a chyfranogiad ganddynt.

### 3.9 Rôl yr Awdurdod Lleol sy'n Cydlynu

3.9.1 Yn rhanbarth pob Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol bydd un awdurdod lleol sy'n cydlynu ac a fydd yn:

- Drafftio'r Cynllun Strategol Rhanbarthol arfaethedig ar gyfer yr awdurdodau lleol yn yr ardal honno.
- Trefnu cyfarfodydd y Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol.
- Cynnal cofrestr o wasanaethau y gellir eu comisiynu neu eu caffael ar fyr rybudd.
- Cyflogi Cydlynydd Datblygu Rhanbarthol a sicrhau ei fod yn gweithio'n rhanbarthol i gefnogi'r Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol.

- Datblygu a chefnogi trefniadau effeithiol ar gyfer gweithio mewn partneriaeth o fewn y rhanbarth ar y Rhaglen Cefnogi Pobl.
- Datblygu cynllun a fydd yn ymgorffori trefniadau lleol a rhanbarthol ac yn dangos tystiolaeth o ddeilliannau cynnwys pobl sy'n defnyddio gwasanaethau Cefnogi Pobl, i'w werthuso a'i gyflwyno i'r Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol.
- Sicrhau deialog a chydweithio rhwng y lefelau lleol a rhanbarthol.
- Cefnogi'r Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol fel ei fod yn gweithio'n effeithiol ac yn cael ei wasanaethu'n briodol.

3.9.2 Gellir newid yr awdurdod lleol sy'n cydlynu trwy gytundeb gydag awdurdodau lleol eraill fel y bo'r angen.

### 3.10 Cydlynydd Datblygu Rhanbarthol

3.10.1 Rôl y Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol yw cydlynu a chyfrannu at ddatblygiad y Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol.

3.10.2 Caiff y Cydgysylltwyr Datblygu Rhanbarthol eu cyflogi ym mhob rhanbarth gan 'awdurdod lleol sy'n cydlynu', sy'n gyfrifol am recriwtio a chyflogi'r Cydlynydd Datblygu Rhanbarthol. Bydd y gwaith hwn yn cynnwys sicrhau bod y rôl yn cael ei chyflawni fel a ragwelwyd.

3.10.3 Diben y Cydlynydd Datblygu Rhanbarthol yw:

- Datblygu a chefnogi trefniadau effeithiol ar gyfer gweithio mewn partneriaeth yn y rhanbarth mewn perthynas â'r Rhaglen Cefnogi Pobl a chyrff rhanbarthol eraill, yn enwedig y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus.

- Cefnogi'r Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol fel ei fod yn gweithio'n effeithiol ac yn cael ei wasanaethu'n briodol.

- Hwyluso cyfathrebu rhwng y Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol a'r Bwrdd Cynghori Cenedlaethol Cefnogi Pobl i sicrhau bod trefniadau a phrosesau penderfynu cydweithredol y Rhaglen Cefnogi Pobl yn rhedeg yn llyfn.

- Hybu a hwyluso'r drefn o ddarparu gwasanaethau ar lefel ranbarthol.

- Mynychu cyfarfodydd y Fforwm Darparwyr Rhanbarthol a chyfrannu iddynt.

- Cydweithio gyda Chydlynwyr Datblygu Rhanbarthol eraill ledled Cymru i rannu a hyrwyddo arfer da.

- Rhoi cymorth gweinyddol i'r Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol.

3.10.4 Caiff tasgau allweddol y disgwylir i bob Cydlynydd Datblygu Rhanbarthol eu cyflawni eu dangos yn y swydd-ddisgrifiadau unigol ac mae'n rhaid iddynt

fod yn seiliedig ar ofynion Llywodraeth Cymru ar gyfer y swydd hon. Gallant fod ychydig bach yn wahanol ar draws y rhanbarthau, gan ddibynnu ar anghenion yr awdurdod sy'n cydlynu.

3.10.5 Bydd y Cydlynwyr Datblygu Rhanbarthol yn mynychu cyfarfodydd y Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol, ond ni fyddant yn aelodau sy'n pleidleisio o'r pwyllgor. Fel rhan o'u gwaith i gydlynu'r cyfarfodydd byddant yn sicrhau bod cofnodion priodol yn cael eu cadw o'r holl benderfyniadau y pleidleisir arnynt, yn sicrhau bod yr aelodaeth yn aros yn gyson â'r Canllawiau, a bod cworwm mewn cyfarfodydd lle y bo angen.

3.10.6 Gall y Cydlynwyr Datblygu Rhanbarthol fynychu, neu gydlynu, grwpiau cynllunio a thasg a gorffen unigol; fodd bynnag, mae disgwyl i aelodau'r Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol fwyd i mewn i'r gwaith hwn a gellir gwneud hyn gyda, neu heb y Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol. Bydd y Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol yn parhau i gydlynu'r gwaith y byd y grwpiau hyn yn ei wneud.

3.10.7 Mae gan y Cydlynydd Datblygu Rhanbarthol gyfrifoldeb am gyflwyno nifer o ddogfennau allweddol i Lywodraeth Cymru ac mae hyn yn cynnwys yr Adolygiad Blynyddol, y Cynllun Strategol Rhanbarthol, y Cynlluniau Gwariant Rhanbarthol a Datganiadau Alldro.

3.10.8 Bydd y Cydlynydd Datblygu Rhanbarthol yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i sicrhau bod unrhyw broblemau gyda'r rôl gydlynu'n cael eu dwyn i'w sylw mewn modd priodol.

3.10.9 Mae disgwyl i Gydlynwyr Datblygu Rhanbarthol roi anogaeth i rannu arfer gorau rhwng y rhanbarthau, a gall hyn gael ei wneud, yn rhannol, trwy'r Rhwydwaith Cydlynwyr Datblygu Rhanbarthol a letyir gan Lywodraeth Cymru.

3.10.10 Mae gan Gydlynwyr Datblygu Rhanbarthol gyfrifoldeb am gyfathrebu gyda'r Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol, Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid eraill, gan sicrhau bod yr holl aelodau'n cael yr wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau allweddol a/neu faterion. Dylid gwneud hyn mewn ffordd y cytunwyd arno gan aelodau o'r Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol.

**3.11 Rôl yr Awdurdod Lleol** – cyfeirier at adran 4.11.3.

**3.12 Rôl y Darparwr** – cyfeirier at adran 4.11.16.

### 3.13 Aelodaeth o'r Pwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol

3.13.1 Dylai fod cynrychiolaeth gyfartal o blith grwpiau allweddol. Dylai nifer yr aelodau o'r awdurdod lleol fod yr un faint â nifer cyfunol y lleoedd ar gyfer landlordiaid a darparwyr gwasanaethau cymorth. Bydd aelodaeth o'r Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol yn cynnwys:

- Awdurdod lleol – gall hyn gynnwys Aelodau Etholedig a/neu swyddogion gan gynnwys y Tîm Cefnogi Pobl a'r gwasanaeth Cyngor ar Ddigartrefedd.
- Iechyd.
- Gwasanaethau Prawf.
- Darparwyr (sy'n cynrychioli gwasanaethau hirdymor a byrdymor) a etholwyd ac a gefnogwyd gan Cymorth Cymru a Landlordiaid a etholwyd ac a gefnogwyd gan Cartrefi Cymunedol Cymru (CCC).
- Aelodau cyfetholedig yn ôl disgresiwn y Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol, ond ni fydd hawliau pleidleisio ganddynt.
- Bydd swyddogion ychwanegol o'r awdurdod lleol, y Cydlynydd Datblygu Rhanbarthol, cynrychiolydd ar ran y Bwrdd Cynghori Cenedlaethol Cefnogi Pobl a swyddogion Llywodraeth Cymru yn gallu mynychu'r Pwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol hefyd, ond ni fydd hawliau pleidleisio ganddynt.

3.13.2 Gallai'r Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol ystyried cynrychiolaeth o blith pobl sy'n defnyddio gwasanaethau Cefnogi Pobl hefyd. Fodd bynnag, fel lleiafswm dylent sicrhau bod yr holl aelodau eu hunain yn cynrychioli buddiannau pobl sy'n defnyddio gwasanaethau Cefnogi Pobl.

3.13.3 **Sylwer**: Nid oes angen i gynrychiolwyr darparwyr a landlordiaid fod yn aelodau o Cymorth Cymru na CCC.

### 3.14 Pennu Blaenoriaethau

3.14.1 Bydd y Pwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol yn datblygu Cynllun Strategol Rhanbarthol tair blynedd (a gyhoeddir gyntaf yn 2017), a fydd yn nodi blaenoriaethau/gwariant ar gyfer y rhanbarth ac yr adroddir yn flynyddol ar y cynnydd o ran ei gyflawni. Dylai'r cynlluniau hyn ystyried y Strategaeth Ddigartrefedd leol, pan fydd wedi'i chyhoeddi, a datganiadau data digartrefedd yn ogystal â blaenoriaethau ataliol ehangach. Bydd yr awdurdod lleol sy'n cydlynu'n llunio'r cynlluniau i'r Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol eu hadolygu. Bydd y Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol yn adnabod blaenoriaethau rhanbarthol ac unrhyw newidiadau eraill sy'n ofynnol ac yna'n cyflwyno'r Cynllun Gwariant rhanbarthol arfaethedig i Lywodraeth Cymru erbyn 21 Ionawr i gael ei gadarnhau.

3.14.2 Dylai prosesau comisiynu lleol ategu'r blaenoriaethau rhanbarthol a nodir yn y Cynllun Strategol Rhanbarthol. Bydd y Pwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol yn cael adroddiadau digonol gan awdurdodau lleol i'w galluogi i sicrhau bod Grant y Rhaglen Cefnogi Pobl yn cael ei gynllunio a'i gyflawni yn unol ag egwyddorion y ddeddfwriaeth ataliol a restrir yn 1.6.1. Pan fo'n briodol, bydd disgwyl i'r Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol hysbysu awdurdodau lleol pan fo'r Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol o'r farn nad yw'r modd y defnyddir Grant y Rhaglen Cefnogi Pobl ar lefel yr awdurdod lleol yn cyflawni'r blaenoriaethau.

### 3.15 Cyfarfodydd

3.15.1 Mae'n ofynnol i Bwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol gwrdd o leiaf bedair gwaith y flwyddyn, fel cyfarfod ffurfiol gan y Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol.

3.15.2 Bydd Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol yn cael eu penodi'n flynyddol a bydd y swyddi'n cael eu dal gan ddau wahanol fath o asiantaeth.

3.15.3 Gall y Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol sefydlu grwpiau tasg a gorffen yn ôl ei ddisgresiwn.

**3.16 Gwasanaethu a Darparu Adnoddau**

3.16.1 Bydd y Cydlynydd Datblygu Rhanbarthol yn rhoi cymorth gweinyddol i'r Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol.

3.16.2 Bydd awdurdodau lleol yn darparu adroddiadau chwarterol ar gyfer y Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol trwy'r Cydlynydd Datblygu Rhanbarthol. Dylai'r rhain roi trosolwg o'r cynnydd yn lleol ac yn rhanbarthol yn ogystal â materion ychwanegol y bydd y Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol yn dymuno'u hystyried o bosibl.

3.16.3 Gall rheolwyr y rhaglen Cefnogi Pobl mewn awdurdodau lleol fynychu cyfarfodydd y Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol, cyfranogi yn ei waith a'i gefnogi.

3.16.4 Bydd y Cydlynydd Datblygu Rhanbarthol yn sicrhau bod deialog a chydweithio'n digwydd rhwng y lefelau lleol a rhanbarthol er mwyn sicrhau bod unrhyw faterion yn cael eu datrys mor gynnar â phosibl yn y broses gynllunio.

**3.17 Cyfathrebu**

3.17.1 Bydd y Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol yn sefydlu trefniadau ymgynghori gyda'r rhanddeiliaid canlynol:

- Pobl sy'n defnyddio gwasanaethau Cefnogi Pobl.
- Grwpiau Cynllunio Cefnogi Pobl awdurdodau lleol.
- Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant.
- Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus.
- Fforymau digartrefedd lleol a rhanbarthol.
- Byrddau Cynllunio Ardal Camddefnyddio Sylweddau.
- Grwpiau Cynllunio Gwasanaethau Cam-drin Domestig.
- Fforymau darparwyr rhanbarthol.
- Cyrff perthnasol eraill.

3.17.2 Bydd Llywodraeth Cymru yn disgwyl gweld tystiolaeth o hyn ym mhob Cynllun Strategol Rhanbarthol.

3.17.3 Bydd disgwyl i'r aelodau unigol o'r Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol gyfathrebu gyda'u hetholaeth hwy eu hunain, e.e. aelodau'r awdurdod lleol, darparwyr eraill a.y.b.

3.17.4 Bydd y Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol yn sicrhau bod yr wybodaeth ganlynol yn cael ei chyhoeddi ar ei dudalennau gwe yn unol â'r graddfeydd amser a nodir isod i'w gwneud yn bosibl i'r holl randdeiliaid yn y Rhaglen gael eu hysbysu'n gyson. Bydd dolen i dudalen we'r Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol ar wefan Llywodraeth Cymru a dylid hysbysu Llywodraeth Cymru ynghylch unrhyw newidiadau i'r ddolen we.

- Cynllun Gwariant Rhanbarthol a Lleol – fis Ebrill yn dilyn ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru.
- Cynlluniau Strategol Rhanbarthol – fis Ebrill yn dilyn eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru.
- Adroddiadau Adolygu Blynyddol – fis Medi yn dilyn eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru.
- Cofnodion Cyfarfodydd – Ar ôl iddynt gael eu cymeradwyo gan y Pwyllgor.
- Papurau cyfarfodydd – fel a benderfynir gan y Pwyllgor.
- Negeseuon allweddol o'r cyfarfod – o fewn 4 wythnos i'r cyfarfod.

### 3.18 Rôl Llywodraeth Cymru o ran Cefnogi'r Pwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol a Threfniadau Llywodraethu

3.18.1 Bydd cynrychiolwyr Llywodraeth Cymru yn mynychu cyfarfodydd y Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol pryd bynnag y bo'n bosibl, yn chwarae rhan wrth i faterion godi, yn brydlon a phan fydd angen uwchgyfeirio'r rhain, a byddant y gymorth i gyfryngu os bydd gwrthdaro. Bydd yn ceisio cyfryngu materion yn anffurfiol gyda swyddogion perthnasol. Bydd Llywodraeth Cymru yn coladu, ac ar rai achlysuron yn crynhoi, adroddiadau a geir gan y Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol i ddarparu darlun cenedlaethol o'r modd y darperir gwasanaethau. Bydd hefyd yn monitro trefniadau mewn partneriaeth gyda rhanddeiliaid i ystyried sut y mae'r trefniadau llywodraethu'n gweithio a sut y gellir gwella'r rhain i gefnogi datblygiad y Pwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol.

### 3.19 Trefniadau lleol i gefnogi Pwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol

3.19.1 Bydd dadansoddiad o anghenion lleol a blaenoriaethau dynodedig ar gyfer gwasanaethau Cefnogi Pobl yn cael eu pennu gan y Grwpiau Cynllunio Cefnogi Pobl lleol. Bydd hyn yn cael ei drafod yng nghyfarfodydd y Pwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol ac yna'n bwydo i mewn i'r Cynlluniau Strategol Rhanbarthol tair blynedd.

3.19.2 Bydd Grwpiau Cynllunio Cefnogi Pobl lleol yn:

- Cynghori ynghylch y Strategaeth Ddigartrefedd leol a sut y gellir cyflunio gwasanaethau i sicrhau cydbwysedd priodol rhwng gwasanaethau ataliol ac adweithiol.
- Datblygu cynlluniau comisiynu lleol ar gyfer gwasanaethau Cefnogi Pobl.

- Sicrhau bod comisiynwyr (gan gynnwys Teuluoedd yn Gyntaf a Dechrau'n Deg), darparwyr gwasanaethau, ac yn bwysicaf oll y bobl sy'n defnyddio gwasanaethau Cefnogi Pobl yn cael eu cynnwys yn y broses o gynllunio, datblygu a chomisiynu gwasanaethau ac ymatebion gan wasanaethau sy'n diwallu anghenion dynodedig a blaenoriaethau strategol y cytunwyd arnynt ar lefel leol a rhanbarthol.
- Sicrhau bod defnyddwyr gwasanaethau, rhanddeiliaid ehangach a chomisiynwyr allweddol yn cael eu cynghori a'u hysbysu ynghylch materion sy'n ymwneud â chamau arfaethedig i ddatblygu, gwella neu ddatgomisiynu gwasanaethau i bobl agored i niwed.
- Sicrhau bod profiad pobl sy'n defnyddio gwasanaethau Cefnogi Pobl yn cyfrannu at ddatblygu prosiectau a gwelliannau i wasanaethau.
- Sicrhau bod penderfyniadau ynghylch cyllid wedi bod trwy Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb a bod y drefn darparu gwasanaethau'n meithrin perthnasoedd da ac yn hybu cydraddoldeb a deilliannau cynhwysol i'r holl ddinasyddion.
- Sicrhau bod comisiynwyr, darparwyr gwasanaethau ac yn bwysicaf oll y bobl sy'n defnyddio gwasanaethau Cefnogi Pobl yn rhoi cymorth i ddatblygu manylebau gwasanaethau lleol a rhanbarthol.

3.19.3 Mewn llawer o ardaloedd, mae cysylltiadau eisoes yn bodoli ag ystod eang o grwpiau rhanddeiliaid. Lle nad yw cysylltiadau o'r fath yn bodoli, bydd angen i awdurdodau lleol sefydlu a chefnogi trefniadau o'r fath. Lle y bo'n briodol, er enghraifft, lle ceir capasiti cyfyngedig, gall trefniadau lleol fod yn rhai trawsffiniol gyda dau dîm neu fwy'n cydweithio i gynyddu adnoddau i'r eithaf.

3.19.4 Mae'n rhaid i unrhyw drefniadau cydweithredol lleol a rhanbarthol yn y dyfodol beidio â cholli golwg o'r opsiwn i gomisiynu rhai trefniadau lleol iawn lle mae'r rhain yn diwallu anghenion orau. Yr hyn sy'n hanfodol yw bod yr holl ddatblygiadau o ran gwasanaethau ar lefel leol, ranbarthol neu genedlaethol yn cael eu halinio'n briodol i adnabod anghenion a blaenoriaethau lleol i:

- Roi cymorth i ddatblygu cynlluniau a blaenoriaethau cyffredin a ategir gan dystiolaeth o'r angen.
- Rhoi cymorth i ddatblygu dull integredig a chydgysylltiedig i ganolbwyntio ar atal a lleihau achosion o ddyblygu neu ddarnio a helpu i ddatblygu a darparu gwasanaethau cost-effeithiol o safon uchel.
- Sicrhau bod gweithgarwch cynllunio a chomisiynu gwasanaethau'n cael ei gydlynu â rhaglenni grant cenedlaethol eraill megis Teuluoedd yn Gyntaf a Dechrau'n Deg.
- Cefnogi datblygiad cysylltiadau priodol â pholisïau, strategaethau, mentrau a ffrydiau cyllido lleol a chenedlaethol eraill.
- Cydlynu â defnydd priodol o'r Grant Tai Cymdeithasol ar sail leol a rhanbarthol.

# Pennod 4: Llywodraethu'r Rhaglen

## 4.1 Cylch Cynllunio

4.1.1 Cynllunio ac adrodd effeithiol yw conglfaen prosesau comisiynu a chaffael effeithiol i sicrhau bod deilliannau'r Rhaglen Cefnogi Pobl yn cael eu cyflawni ac maent yn ganolog i ddiwallu anghenion pobl sy'n defnyddio gwasanaethau Cefnogi Pobl a rhoi'r gwerth gorau am arian cyhoeddus.

4.1.2 Mae'r Bennod hon yn nodi cyfrifoldebau Pwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol ac awdurdodau lleol wrth gynllunio gwasanaethau; ac mae'n rhoi trosolwg o'r broses cynllunio gwasanaethau ar gyfer gwasanaethau cymorth a gyllidir gan y Rhaglen Cefnogi Pobl.

## 4.2 Cynllun Strategol Rhanbarthol

4.2.1 Bydd y Pwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol yn datblygu Cynllun Strategol Rhanbarthol tair blynedd i gynghori awdurdodau lleol sut i fynd ati'n effeithiol i gyflawni'r Rhaglen yn gydweithredol ar lefel ranbarthol a lleol i sicrhau'r gwasanaethau mwyaf effeithlon ac effeithiol.

4.2.2 Bydd y Cynllun Strategol Rhanbarthol yn nodi blaenoriaethau a argymhellir a'r cydbwysedd gwariant arfaethedig ar gyfer y rhanbarth o ran blaenoriaethau'r Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol. Bydd y manylion yn y Cynllun Strategol Rhanbarthol yn cael eu goleuo gan Gynlluniau Comisiynu Lleol yr awdurdodau lleol.

4.2.3 Mae'r tabl isod yn rhoi trosolwg o strwythur y Cynllun Strategol Rhanbarthol:

| | Pennawd adran | Disgrifiad o'r cynnwys |
|---|---|---|
| 1 | Blaenoriaethau Strategol | Blaenoriaethau a themâu cenedlaethol, rhanbarthol a lleol sydd wedi dod i'r amlwg o'r 'asesiad o'r boblogaeth' (adran 14 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, y Strategaeth Ddigartrefedd (Rhan 2 a50(1) o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 a'r asesiad a'r cynllun llesiant (adran 51(1) o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. |
| 2 | Cyflenwad, asesiad o anghenion, dadansoddiad o'r deilliannau, tystiolaeth o ymgynghori a bylchau o | Crynodeb o'r modd y mae tystiolaeth a gwybodaeth a gasglwyd gan bobl sy'n defnyddio gwasanaethau Cefnogi Pobl a rhanddeiliaid eraill yn dylanwadu ar |

| | | |
|---|---|---|
| | ran gwasanaethau | ddatblygiadau o ran comisiynu gwasanaethau. |
| 3 | Blaenoriaethau ar gyfer datblygu gwasanaethau | Manylion grwpiau cleientiaid sy'n flaenoriaeth a chynigion ar gyfer datblygu, datgomisiynu ac ailfodelu gwasanaethau. |
| 4 | Arbedion effeithlonrwydd i wella'r modd y darperir gwasanaethau | Trosolwg o'r dull a fydd yn cael ei ddefnyddio i weithredu arbedion effeithlonrwydd er mwyn cyflawni gwerth am arian. |
| 5 | Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb | Crynodeb o ymarfer sgrinio cydraddoldeb ac asesiad o effaith newidiadau i wasanaethau ar bob un o'r meysydd cydraddoldeb. |

4.2.4 Bydd y cynllun yn cael ei ddatblygu gan ddefnyddio gwybodaeth a gyflwynwyd gan dimau Cefnogi Pobl o'u fframweithiau cynllunio gwasanaethau lleol a rhanbarthol; a ddylai gynnwys, er enghraifft, ddadansoddiad o'r cyflenwad o wasanaethau ar draws y rhanbarth ac asesiad o anghenion.

4.2.5 Bydd yn cael ei adolygu a'i gytuno gan y Pwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol a'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru bob tair blynedd.

4.2.6 Yn ogystal â rhoi cyfeiriad strategol i gyflawni'r Rhaglen bydd y ddogfen yn:

- Dangos y dystiolaeth a ddefnyddiwyd.
- Rhoi trosolwg o'r modd yr adnabuwyd anghenion.
- Rhoi tystiolaeth o'r modd y daethpwyd i gasgliadau ar gyfer blaenoriaethau o ran datblygu gwasanaethau.
- Rhoi tystiolaeth bod trefniadau cadarn yn eu lle ar gyfer gweithio mewn partneriaeth ym mhob ardal; gan sicrhau bod pobl sy'n defnyddio gwasanaethau Cefnogi Pobl, darparwyr gwasanaethau cymorth a rhanddeiliaid statudol eraill yn cael cyfleoedd ystyrlon i ddylanwadu ar benderfyniadau ar lefel leol a rhanbarthol.

### 4.3 Diweddariad Blynyddol yr Awdurdod Lleol

4.3.1 Bydd awdurdodau lleol yn rhoi Diweddariad Blynyddol i'r Pwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol; bydd y ddogfen hon yn rhoi trosolwg fanwl i'r Pwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol o'u hargymhellion o ran comisiynu ac ailfodelu ar gyfer y flwyddyn ariannol ganlynol a sut y maent yn cysylltu â'r blaenoriaethau yn y Cynllun Strategol Rhanbarthol.

4.3.2 Bydd y Diweddariad Blynyddol yn cynnwys Cynllun Gwariant a dadansoddiad ariannol sy'n nodi ymrwymiadau ariannol a throsolwg o'r modd y bydd unrhyw newidiadau yn y dyfodol i lefelau cyllidebau'n cael eu rheoli.

4.3.3 Bydd awdurdodau lleol yn defnyddio'u prosesau mewnol a'u gofynion adrodd hwy eu hunain i gymeradwyo'r Diweddariad Blynyddol cyn ei gyflwyno i'r Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol a'r awdurdod sy'n cydlynu.

4.3.4 Bydd pob awdurdod lleol yn cyflwyno'i ddiweddariad blynyddol i'r Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol a'r awdurdod lleol sy'n cydlynu, a fydd yn gyfrifol am y canlynol:

- Coladu'r wybodaeth ar gyfer eu rhanbarth.
- Cyflwyno Diweddariad Blynyddol rhanbarthol i Lywodraeth Cymru erbyn 21 Ionawr bob blwyddyn.

4.3.5 Caiff strwythur Diweddariad Blynyddol yr awdurdod lleol ei ddarparu yn y tabl isod:

| | **Pennawd Adran** |
|---|---|
| 1 | Model o wasanaethau a ddarperir |
| 2 | Nifer yr unedau |
| 3 | Grŵp cleientiaid |
| 4 | Y flwyddyn gyfredol |
| 5 | Y flwyddyn nesaf |
| 6 | Cyllid/Arbedion a Amcangyfrifir Bob Blwyddyn |
| 7 | Rheswm dros gomisiynu / ailfodelu / datgomisiynu |
| 8 | Cynllun gwariant yr awdurdod lleol |

## 4.4 Adroddiad Adolygu Blynyddol

4.4.1 Mae'n ofynnol i Bwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol gyflwyno Adroddiad Adolygu Blynyddol i'r Bwrdd Cynghori Cenedlaethol Cefnogi Pobl, a fydd yn hysbysu Ysgrifennydd y Cabinet ynghylch cynnydd pob Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol yn ystod y flwyddyn ariannol flaenorol.

4.4.2 Mae'r tabl canlynol yn rhoi trosolwg o strwythur yr Adroddiad Adolygu Blynyddol:

| | **Pennawd Adran** | **Disgrifiad – Hyd at 500 gair ar gyfer pob Adran.** |
|---|---|---|
| 1 | Crynodeb Gweithredol. | Trosolwg o'r cynnydd a wnaed yn ystod y flwyddyn adrodd flaenorol a ysgrifennir gan Gadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol unwaith y mae pob adran arall wedi'i chwblhau. |
| 2 | Cyflwyniad. | Mewnosodwch fanylion ar gyfer pob rhanbarth |
| 3 | Astudiaethau Achos. | X2 astudiaeth achos sy'n rhoi enghreifftiau o waith arwyddocaol a wnaed gan y Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol ers cyflwyno'r adroddiad diwethaf sydd wedi gwella'r modd y darperir gwasanaethau, neu brofiad pobl a gafodd wasanaethau Cefnogi Pobl. |
| 4 | Sut y mae pobl | Sut y mae pobl sy'n defnyddio |

| | | |
|---|---|---|
| | sy'n defnyddio gwasanaethau'n cael eu cynnwys. | gwasanaethau wedi bod yn rhan o benderfyniadau ac wedi dylanwadu arnynt?<br>Pa newidiadau sydd wedi deillio o'u hymwneud a sut y mae hyn wedi cael ei fwydo'n ôl iddynt. |
| 5 | Datblygu Gwasanaethau<br>Uchafswm o 500 gair am bob un o'r adrannau hyn. Dylech gynnwys unrhyw rwystrau/heriau yr ydych wedi dod ar eu traws a sut yr ydych wedi'u goresgyn.<br><br>1. Sut y dylanwadwyd ar benderfyniadau gan y cynllun gwariant, y dadansoddiad o anghenion, deilliannau a ffynonellau data eraill? Pa newidiadau sydd wedi deillio?<br><br>2. Pa waith Rhanbarthol ac Is-ranbarthol (i Bwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol â mwy na 2 awdurdod lleol) sy'n cael ei gomisiynu a sut y mae gwasanaethau wedi gwella ers yr Adroddiad Blynyddol diwethaf?<br><br>3. Sut allwch ddangos bod dull o ymdrin â digartrefedd sy'n ataliol ac sy'n seiliedig ar ymyrryd yn gynharach yn cael ei gyflawni, e.e. a yw'r gymhareb rhwng safleoedd cymorth penodedig / cymorth fel y bo'r angen wedi newid yn y 12 mis diwethaf?<br><br>4. Pa gysylltiadau sydd gan y Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol â Gwasanaethau Cymdeithasol a Gwasanaethau Iechyd yn y rhanbarth? A fu unrhyw weithgarwch o ran comisiynu gwasanaethau ar y cyd neu gyfuno adnoddau? Os felly, allwch chi roi manylion y prosiect(au)?<br><br>5. Pa gysylltiadau llywodraethu sydd wedi cael eu creu â grwpiau strategol / cynllunio rhanbarthol, gan gynnwys y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus?<br><br>6. Yn dilyn argymhellion Aylward, pa gyfran o wariant ar wasanaethau ar gyfer pobl hŷn sy'n niwtral o ran deiliadaeth, h.y. ar gael i'r un graddau i berchentywyr, tenantiaid y sector tai rhent preifat a thenantiaid i landlordiaid cymdeithasol? Os nad yw'r gwariant yn niwtral o ran deiliadaeth, pa gynlluniau sydd gan y Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol i ddarparu gwasanaethau sy'n niwtral o ran deiliadaeth ac o fewn pa raddfeydd amser?<br><br>7. Yn rhanbarth y Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol pa | |

| | | |
|---|---|---|
| | ymarferion comisiynu ar y cyd a gynhelir rhwng y Rhaglen Cefnogi Pobl a rhaglenni allweddol eraill, e.e. Cymunedau yn Gyntaf, Teuluoedd yn Gyntaf, Dechrau'n Deg, Diogelwch Cymunedol/trais domestig? Rhestrwch y prosiect, yr awdurdod lleol a'r ffrydiau cyllido sydd wedi'u cynnwys. | |
| 6 | Arfarniad/Adborth Aelodau o'r Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol | Trosolwg o adborth/ ymatebion ynghylch y Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol. Y Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol i goladu a drafftio. |
| 7 | Taflen Presenoldeb y Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol | |

4.4.3 Bydd yr Adroddiad Adolygu Blynyddol yn cael ei baratoi ar y cyd gan bob aelod o'r Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol.

4.4.4 Bydd y Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol a'r awdurdod lleol sy'n cydlynu'n gyfrifol am y canlynol:

- Coladu'r wybodaeth ar gyfer yr Adolygiad Blynyddol.
- Sicrhau bod yr adroddiad yn cael ei baratoi ar y cyd.
- Cyflwyno Adroddiad Adolygu Blynyddol i Lywodraeth Cymru erbyn 30 Mehefin bob blwyddyn.

### 4.5 Dull Darbodus ac Ataliol

4.5.1 Dylai'r broses o gomisiynu gwasanaethau Cefnogi Pobl ganolbwyntio ar atal, ond dylai hefyd ystyried yr egwyddorion sy'n seiliedig ar y dull Gofal Iechyd Darbodus:

- Sicrhau tai diogel a llesiant gydag aelodau'r cyhoedd, pobl sy'n defnyddio gwasanaethau Cefnogi Pobl a gweithwyr proffesiynol yn bartneriaid cyfartal drwy gyd-gynhyrchu;
- Sicrhau bod gwasanaethau'n rhoi cymorth mor gynnar â phosibl i atal pobl rhag eu cael eu hunain mewn argyfwng;
- Cefnogi'r rhai â'r angen mwyaf am dai yn gyntaf, gan wneud y defnydd mwyaf effeithiol o'r holl sgiliau ac adnoddau;
- Gwneud dim ond yr hyn y mae angen ei wneud a gwneud dim niwed, dim mwy, dim llai;
- Datblygu ac ailfodelu gwasanaethau yn seiliedig ar dystiolaeth dda o arfer gorau, mewn modd cyson.

4.5.2 Er mwyn cyflawni hyn, dylid ystyried sut y caiff gwasanaethau eu modelu a'u darparu, a chanfod sut y gall gwasanaethau esblygu ac addasu i'r amgylchedd newidiol.

4.5.3 Mae'r adran hon yn nodi'r meysydd a'r ystyriaethau y dylai comisiynwyr a darparwyr gwasanaethau roi sylw iddynt i ganfod yr arbedion effeithlonrwydd a sicrhau bod cyllid yn cael ei dargedu'n effeithiol.

## 4.6 Gwerth am Arian

4.6.1 Mae angen defnyddio dull sy'n gwneud anghenion pobl ac arnynt angen gwasanaethau'n ganolog i'r broses ac yn eu galluogi i gyflawni eu deilliannau. Mae'n rhaid i hyn ganolbwyntio ar yr angen i ddarparu gwasanaethau ar gyfer cymaint â phosibl o bobl y mae arnynt eu hangen er mwyn dwyn y budd mwyaf posibl o'r Rhaglen. Fodd bynnag, mae'n rhaid i ffocws ar ddarparu gwasanaethau ar gyfer cymaint o bobl â phosibl ystyried pobl â'r anghenion mwyaf cymhleth hefyd.

4.6.2 Mae hefyd yn hollbwysig cydnabod a gwerthfawrogi staff sy'n darparu gwasanaethau o fewn y Rhaglen Cefnogi Pobl, yn aml i bobl sy'n profi argyfyngau ac amrywiaeth o anghenion cymhleth. Dylai comisiynwyr a darparwyr sicrhau cymorth, datblygiad a thelerau ac amodau o ansawdd da i'r rhai sy'n darparu gwasanaethau. Mae'n anorfod bod y ffordd y caiff staff eu gwerthfawrogi'n effeithio ar ansawdd y cymorth a gynigir.

4.6.3 Mae angen ceisio cyflawni datrysiadau cyllido ar gyfer gwasanaethau sy'n sicrhau bod gwasanaethau wedi'u targedu i ddiwallu anghenion pobl sy'n wynebu risg o ddigartrefedd. Gall hyn gynnwys alinio neu integreiddio sectorau, ffrydiau cyllido neu bortffolios, gan gynnwys (ond nid dim ond) Cefnogi Pobl, Tai, Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Threchu Tlodi (lle y bo'n briodol) gyda'r nod o sicrhau bod y gwasanaeth mwyaf effeithlon ac effeithiol yn cael ei ddarparu. Gall hyn gynnwys contractio a monitro gwasanaethau ar y cyd.

4.6.4 Dylai Pwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol ac awdurdodau lleol gydnabod y gall fod rhesymau dilys pam fod costau'n uwch na'r meincnodau mewn nifer fach o wasanaethau arbenigol. Un elfen allweddol o'r dull i'w ddefnyddio yw y dylai'r holl randdeiliaid allu cynnal trafodaeth agored ynglŷn â'r materion hyn, yng nghyd-destun trafodaethau am werth am arian, lle cydnabyddir mai comisiynwyr sydd â'r penderfyniad terfynol.

4.6.5 Caiff egwyddorion allweddol i'w hystyried eu nodi dan '4.5 *Dull Darbodus ac Ataliol'*, ac mae'r materion ehangach i'w cymryd i ystyriaeth fel a ganlyn:

- Sicrhau bod y bobl y mae angen gwasanaethau arnynt yn ganolog i ddarparu a bod y ffocws ar yr hyn sydd o werth iddynt hwy.

- Mae gwerth am arian yn gweithio yn y ddau gyfeiriad – mae angen i ddarparwyr allu talu costau gwirioneddol darparu gwasanaethau. Mae angen i gomisiynwyr ystyried adennill costau'n llawn a dylai darparwyr fod

yn dryloyw o ran beth yw’r costau hyn a pha incwm arall y maent yn ei gael ar gyfer y cynllun.

- Mae’n rhaid i wasanaethau cymorth tenantiaeth ategu gwasanaethau cyngor ar dai awdurdodau lleol a dylai mynediad at wasanaethau fod trwy’r porth atgyfeirio cefnogi pobl neu fecanweithiau eraill sy’n amlwg yn atebol i’r awdurdod lleol.

- Dylai fod gan yr awdurdod lleol drefniadau atebolrwydd a monitro hefyd ar gyfer achosion o wahardd a throi allan.

- Roi anogaeth i arloesi er mwyn datblygu modelau mwy effeithiol ac effeithlon.

- Lle y bo’n bosibl, datblygu gwasanaethau a gydlynir i leihau achosion o ddyblygu a chyflawni amcanion polisi cyffredin.

- Dylai gwasanaethau fod yn atebol ond mae angen i randdeiliaid sicrhau bod mecanweithiau adrodd yn gymesur, gan ystyried gwerth y contract, lefelau risg a ragwelir, a dwyster y cymorth a roddir.

- Dylid ystyried goblygiadau Deddf Gwasanaethau Cyhoeddus (Gwerth Cymdeithasol) 2012, gyda dylanwad priodol ar y modd y caiff gwasanaethau eu caffael i ddwyn budd cyfunol i’r gymuned (Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014, Rhan 2 – http://gov.wales/docs/phhs/publications/151125pt2socialen.pdf.

- Mae gwerthfawrogi’r gweithlu sy’n darparu’r gwasanaethau hyn yn hollbwysig i sicrhau ansawdd y gwasanaeth a gyflawnir trwy ddulliau ariannol ac anariannol (h.y. trwy ‘gyflog byw’, fel a argymhellir gan y Sefydliad Cyflog Byw, rhaglenni cynorthwyo cyflogeion, a chyfleoedd i hyfforddi a datblygu).

## 4.7 Comisiynu a Chydlynu Gwasanaethau i gysylltu ag Agendâu Ehangach

4.7.1 Er mwyn sicrhau bod ffocws i’r cyllid, mae rôl i Bwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol ac awdurdodau lleol i sicrhau bod gwasanaethau’n cael eu comisiynu a’u cydlynu mewn modd hyblyg i wella ac ategu gwasanaethau sy’n eistedd y tu allan i’r Rhaglen.

4.7.2 Mae’r canlynol yn cynnig rhai enghreifftiau o’r hyn y dylai Pwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol ei ystyried wrth gomisiynu a chydlynu gwasanaethau er mwyn sicrhau eu bod yn rhoi gwerth am arian.

**Digartrefedd**

- Mae’n rhaid i wasanaethau a gyllidir â Grant y Rhaglen Cefnogi Pobl gydweithio’n agos gyda’r timau Dewisiadau Tai, gan ddefnyddio data ynghylch digartrefedd i ddatblygu dull â ffocws o atal digartrefedd. (O

2018 mae'n rhaid i dimau gomisiynu mewn modd sy'n adlewyrchu'r angen a adnabuwyd mewn gwasanaethau digartrefedd).

- A all gwasanaethau a gyllidir â Grant y Rhaglen Cefnogi Pobl a'r Grant Digartrefedd gael eu darparu'n fwy cydweithredol trwy brosiectau wedi'u huno neu wedi'u comisiynu ar y cyd / wedi'u cydlynu?

- A ellir darparu gwasanaethau trwy fodelau eraill, e.e. Tai yn Gyntaf?

**Gwasanaethau Cymdeithasol, Iechyd a Llesiant**

- Sut y mae'r gwasanaethau a gyllidir â Grant y Rhaglen Cefnogi Pobl yn cyd-fynd â'r ffordd y mae awdurdodau lleol a rhanbarthau'n modelu gwasanaethau i atal pobl rhag defnyddio opsiynau mwy costus o ran iechyd a gofal?

- A yw gwasanaethau a gyllidir â Grant y Rhaglen Cefnogi Pobl yn cefnogi'r broses o weithredu'r Llwybr Atal Digartrefedd Ieuenctid?

- A yw gwasanaethau a gyllidir â Grant y Rhaglen Cefnogi Pobl yn hygyrch i'r rhai sy'n cysylltu â'r Gwasanaethau Cymdeithasol, gwasanaethau iechyd meddwl, iechyd corfforol a chyffuriau ac alcohol – ac a yw'r staff sy'n cwblhau'r asesiadau cychwynnol yn ymwybodol o'r gwasanaethau Cefnogi Pobl sydd ar gael?

- A yw gwasanaethau a gyllidir â Grant y Rhaglen Cefnogi Pobl ar gael i bawb yn y gymuned, ni waeth beth fo'u grŵp deiliadaeth?

- Beth yw'r cyfleoedd ar gyfer comisiynu integredig rhwng Cefnogi Pobl, Gofal Cymdeithasol ac Iechyd?

- A oes cyswllt llywodraethu cadarn rhwng y Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol a'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gwasanaethau Cymdeithasol?

**Cam-drin Domestig**

- A yw gwasanaethau a gyllidir â Grant y Rhaglen Cefnogi Pobl wedi'u hintegreiddio â gwasanaethau cam-drin domestig eraill a blaenoriaethau ehangach o ran diogelwch cymunedol, e.e. rhaglenni i gyflawnwyr?

- A yw gwasanaethau a gyllidir â Grant y Rhaglen Cefnogi Pobl yn gweithio mewn partneriaeth gyda thimau Dewisiadau Tai awdurdodau lleol i atal digartrefedd, e.e. trwy galedu targedau, lle bynnag y bo'n bosibl a, lle y bo'n bosibl, lleihau'r galw am lety a dewisiadau cymorth mwy costus?

- A yw awdurdodau lleol a Phwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol yn mabwysiadu egwyddorion comisiynu integredig gyda phartneriaid ehangach, e.e. i roi ffocws o ran y cyllid a chreu arbedion effeithlonrwydd?

**Trechu Tlodi**

- Beth yw'r potensial ar gyfer comisiynu gwasanaethau ar y cyd er mwyn dod o hyd i arbedion effeithlonrwydd yn y ddwy gyllideb (yn enwedig mewn perthynas â gwasanaethau megis cymorth i deuluoedd)?

- Sut all gwasanaethau a gyllidir â Grant y Rhaglen Cefnogi Pobl gynorthwyo pobl i gysylltu â rhaglenni cyflogadwyedd gan fod hyn yn llwybr gwirioneddol at annibyniaeth?

**Gwasanaethau Prawf a Chyfiawnder Ieuenctid**

- Pa wasanaethau tai a chymorth ellid eu comisiynu ar y cyd gydag asiantaethau cyfiawnder troseddol?

- Sut all y bobl ddigartref hynny sy'n gadael y carchar, gan gynnwys pobl ifanc yn y gyfundrefn cyfiawnder troseddol, gael eu cynorthwyo i'w hailsefydlu eu hunain yn y gymuned, lleihau aildroseddu a gostwng costau?

- Sut all gwasanaethau gysylltu'n agosach â thimau Dewisiadau Tai a helpu i gyflawni dyletswyddau o ran tai? A oes potensial i gomisiynu gwasanaethau ar y cyd gyda gwasanaethau digartrefedd?

4.7.3 Nid yw'r ystyriaethau hyn yn gynhwysfawr ar unrhyw gyfrif, ond bydd Llywodraeth Cymru yn chwilio am dystiolaeth o'r modd y mae pob Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol yn gweithio mewn partneriaeth i gysylltu ffrydiau cyllido a rhoi ffocws i wasanaethau.

### 4.8 Arloesi mewn Darparu Gwasanaethau Cymorth sy'n gysylltiedig â Thai

4.8.1 Mae enghreifftiau da o Bwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol ac awdurdodau lleol yn darparu ffyrdd newydd o roi cymorth. Mae'r adran hon yn ystyried rhai ffyrdd y gallai ffyrdd newydd o weithio ei gwneud yn bosibl gwneud defnydd mwy effeithlon o adnoddau sy'n mynd yn llai drwy'r amser.

**Lleihau'r angen am Gynlluniau Cymorth ar gyfer ymyriadau byrdymor iawn**

- Mae'r 'cynllun cymorth' yn adlewyrchu'r dull 'cynllun gofal' mewn Gwasanaethau Cymdeithasol, sydd eisoes yn ystyried ffyrdd gwan.

- Mae arloesi mewn darparu gwasanaethau cymorth yn hollbwysig, ond mae angen i awdurdodau lleol ystyried perthnasedd y Cynllun Cymorth neu'r Cynllun Tai Personol i'r gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu a'i ddiben.

- Dylai comisiynwyr, ynghyd â darparwyr cymorth, ystyried gwahanol ffyrdd o ddarparu gwasanaethau. Ar gyfer ymyriadau byrdymor iawn, h.y. 2 wythnos, a oes angen dull sy'n seiliedig ar 'gynllun cymorth' bob amser?

Byddai'n dal yn ofynnol i gomisiynwyr a darparwyr cymorth gasglu data ynghylch deilliannau, ac un cyfrwng posibl fyddai'r Cynllun Tai Personol.

**Cymorth mewn ardaloedd lleol**

- Er mwyn i bobl gael cymorth effeithiol, ond â llai o adnoddau, mae'r datblygiadau hyn yn cynnig y cyfle i ystyried arfer a darpariaeth arloesol sy'n canolbwyntio ar yr hyn sydd o werth gwirioneddol i'r sawl sy'n cael cymorth.

- Ceir rhai enghreifftiau o wasanaethau cymorth yn dod i'r amlwg sydd wedi'u lleoli mewn ardaloedd lleol (ni waeth beth fo'r grŵp deiliadaeth / 'prif angen'); cymorth a gynigir ac a roddir pan fo ar y person ei angen; defnyddio technoleg i ostwng costau; cymorth sy'n seiliedig ar gydnabod cryfderau'r person.

- Mae'r amser a dreulir yn teithio wedi mynd yn llai, gyda hynny i bob pwrpas yn rhyddhau amser i roi cymorth yn uniongyrchol.

**Cymorth ar Alw**

- Ceir tystiolaeth bod 'cymorth ar alw' yn ddull mwy effeithiol ac effeithlon mewn rhai achosion. Gall pobl gael cymorth pan fo'i angen arnynt. Mae gan hyn y potensial i gael gwared ar restrau aros, gan sicrhau y ceir mynediad at gymorth yn ddigon cynnar a chan ei gwneud yn bosibl rhoi'r cymorth ar delerau'r person.

- Ni fydd y dull hwn yn effeithiol i bawb ac mae angen rhoi cymorth mewn ffordd sy'n briodol i'r person hwnnw.

**Cymorth Statig a Chymorth Fel y Bo'r Angen**

- Profwyd fod cyfuno adnoddau rhwng cymorth statig a chymorth fel y bo'r angen a'u galluogi i weithio mewn ffordd fwy ymatebol yn gostwng costau darparu gwasanaethau, gan barhau i roi cymorth i nifer debyg o bobl.

**Datblygu Gwasanaethau a Chonsortia Rhanbarthol**

- Dylai Pwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol ac awdurdodau lleol ystyried y cyfleoedd a gynigir gan wasanaethau rhanbarthol. A oes potensial ar gyfer arbedion effeithlonrwydd o ran rheoli a/neu staffio os caiff cynlluniau eu strwythuro a'u modelu'n rhanbarthol?

- Mae angen i Bwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol ac awdurdodau lleol ystyried yr arbedion posibl os yw darparwyr yn gweithio mewn gwahanol fathau o bartneriaeth. A oes cyfleoedd yn lleol neu o fewn y rhanbarth i gomisiynwyr a darparwyr hybu datblygiad consortia, gan arbed costau rheoli a 'chefn swyddfa' o bosibl? (Dylai graddfeydd amser comisiynu adlewyrchu'r amser ychwanegol y mae'r rhain yn ei gymryd i ymffurfio).

**Sicrhau bod gan Gomisiynwyr Drosolwg o'r Gwasanaethau Cymorth a Ddarperir**

- Mae amrywiaeth eang o wasanaethau cymorth yn cael eu darparu ar gyfer amrywiaeth eang o bobl. Dylai Pwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol ystyried diben pob gwasanaeth a'r hyn y maent am iddo'i gyflawni. Efallai y bydd ar y rhai â'r anghenion mwyaf cymhleth angen lefelau uwch o gymorth a gall fod ar bobl o grwpiau cleientiaid penodol angen gwasanaethau mwy arbenigol. Wrth gomisiynu'r gwasanaethau hyn, efallai nad cyrraedd nifer penodol o ran y bobl a gefnogir fydd y prif nod; mae'n bwysig bod y cymorth a roddir yn ateb ei ddiben.

- Dylai Comisiynwyr a Phwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol archwilio'r cymunedau y caiff gwasanaethau cymorth eu datblygu ynddynt, mapio a thynnu ar y cryfderau, y cyfleoedd a'r rhwydweithiau presennol o fewn y cymunedau hyn.

- Yn y ddau achos mae angen i Bwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol ac awdurdodau lleol ystyried gwir werth gwasanaethau a dangos tystiolaeth o hynny lle y bo'n bosibl. Bydd adegau pan fo gwasanaethau'n fwy costus, ond gallent ddarparu mwy o werth o ran eu heffaith ataliol, yn ddiweddarach.

### 4.9 Comisiynu a Chaffael

4.9.11 **Cafeat**

Mae'r adran hon yn rhoi trosolwg o egwyddorion arfer da wrth gomisiynu gwasanaethau. Mae Canllaw Cynllunio Caffael Gwerth Cymru (http://prp.gov.wales/docs/prp/generalgoodsservices/280613ODimpguidanceeng.pdf) yn rhoi arweiniad manwl y mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus ei ddilyn wrth gomisiynu a chaffael gwasanaethau.

Nid yw'r adran hon wedi'i bwriadu i ddisodli cyngor cyfreithiol na rhoi eglurhad cynhwysfawr o ddeddfwriaeth berthnasol.

4.9.2 Mae comisiynu a chaffael o ansawdd da'n allweddol i ddarparu gwasanaethau o ansawdd sy'n diwallu anghenion pobl sy'n defnyddio gwasanaethau Cefnogi Pobl ac yn rhoi'r gwerth gorau am arian cyhoeddus. Bydd angen i awdurdodau lleol ffurfio barn, yn seiliedig ar amcanion strategol lleol a rhanbarthol ar gyfer digartrefedd, trechu tlodi, gofal cymdeithasol a diogelwch cymunedol. Mae'n rhaid i wasanaethau adlewyrchu'r dulliau mwyaf priodol o ddatblygu'r farchnad a chaffael yn eu hardal leol, gan gynnwys gwahanol ffurflenni contract, grantiau neu ddarpariaeth fewnol. Dylai contractau fod â threfniadau cyllido eglur a thryloyw gan gynnwys dealltwriaeth gyffredin am gyfraniadau cyllido o renti, Budd-dal Tai, Gofal Cymdeithasol ac Iechyd yn ogystal â rhaglenni eraill gan Lywodraeth Cymru megis Teuluoedd yn Gyntaf neu raglenni Diogelwch Cymunedol.

4.9.3 Mae'n hanfodol bod gwasanaethau a ddarperir a modelau gwasanaeth yn esblygu i adlewyrchu'r agenda ddeddfwriaethol a'r agenda polisi yng Nghymru. Mae'r deddfau a restrir yn 1.6.1 i gyd yn amlygu rôl atal o ran diwallu anghenion pobl mewn amgylchedd cyfyngedig o ran cyllid cyhoeddus. Mae'n rhaid i drefniadau comisiynu fod yn hyblyg, a chanolbwyntio ar y gwerth mwyaf i bobl sy'n derbyn gwasanaethau ac agenda ataliol hirdymor.

4.9.4 Mae'r adran hon yn nodi cyfrifoldebau llywodraeth leol wrth gaffael gwasanaethau ac mae'n darparu safbwynt lefel uchel ar y broses gomisiynu ar gyfer gwasanaethau cymorth sy'n gysylltiedig â thai.

4.9.5 **Comisiynu**

Cafodd dull cydweithredol, gydag anghenion y bobl sy'n defnyddio gwasanaethau Cefnogi Pobl yn ganolog i wneud penderfyniadau, ei amlygu gan Adolygiad Aylward, fel rhywbeth sy'n hanfodol i gomisiynu da. Mae hyn yn golygu:

- Cydweithio ar draws themâu strategol y rhoddir sylw iddynt yn yr awdurdod lleol neu'r rhanbarth, gan gynnwys y Cynllun Integredig Sengl, y Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles, y Strategaeth Diogelwch Cymunedol a'r Strategaeth Ddigartrefedd.

- Cydweithio rhwng awdurdodau lleol, y GIG, darparwyr gwasanaethau a phobl sy'n defnyddio gwasanaethau Cefnogi Pobl. Dylai Pwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol ddatblygu cysylltiadau a threfniadau adrodd ffurfiol gyda Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol. Mae'n rhaid i Dimau Cefnogi Pobl awdurdodau lleol ddatblygu mecanweithiau y gellir eu defnyddio i gynnwys pobl sy'n defnyddio gwasanaethau Cefnogi Pobl mewn prosesau i ddatblygu, comisiynu ac adolygu gwasanaethau cymorth.

- Mae disgwyl i drefniadau comisiynu rhanbarthol a lleol ddefnyddio Strategaethau Digartrefedd yn ogystal â ffynonellau data eraill, megis data ynghylch anghenion y boblogaeth, i ystyried a oes cydbwysedd priodol rhwng gwasanaethau ataliol ac adweithiol mewn ardal.

- Lle canfyddir lefelau isel o angen dylai awdurdodau lleol gydweithio ar draws ffiniau i wneud y defnydd mwyaf effeithiol o adnoddau, er enghraifft gwasanaethau i bobl ifanc ag anghenion cymhleth.

- Mae comisiynu'n gweithio orau lle ceir cyd-ddealltwriaeth am flaenoriaethau strategol a ffocws ar flaenoriaethu anghenion y gymuned, yn ychwanegol at werth am arian. Mae angen i awdurdodau lleol a phartneriaid fabwysiadu diwylliant o her barhaus i sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu caffael a'u monitro er mwyn atal digartrefedd i'r eithaf, gan gynnwys ymyriadau byr a chyflym, lle y bo'n briodol, i ganolbwyntio ar broblemau penodol, yn ogystal â meithrin cydnerthedd mwy hirdymor.

Wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus, ceir cyfleoedd mynych i fanteisio ar gronfeydd ariannol ad hoc sydd ar gael trwy fentrau cyllido unigol neu lithriant o brosiectau presennol. Gyda'r cyfleoedd hyn mewn golwg, mae'n hanfodol bod awdurdodau lleol a Phwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol yn cynnal cofrestr o wasanaethau y gellir eu comisiynu neu eu caffael ar fyr rybudd os bydd cyllid ar gael. Gall y rhain fod yn wasanaethau newydd y mae'n ofynnol eu caffael neu ymwneud ag ehangu gwasanaethau presennol. Efallai na fydd ffynhonnell gyllido wedi'i ganfod ar gyfer y cynlluniau hyn ac efallai na fyddant yn gwbl aeddfed, ond maent ar gael i alw arnynt os bydd cyllid ar gael ar fyr rybudd.

### 4.9.6 Y fframwaith deddfwriaethol ar gyfer caffael

Caiff prosesau i gwasanaethau gofal cymdeithasol a chymorth sy'n gysylltiedig â thai eu rheoli gan ddeddfwriaeth a basiwyd yn Ewrop a'r DU. Mae 'Bywydau Bodlon, Cymunedau Cefnogol – Fframwaith a Chanllawiau Comisiynu 2010' a ategir gan Ganllawiau Cynllunio Caffael Gwerth Cymru yn rhoi arweiniad ynghylch caffael a chopïau o'r ddeddfwriaeth allweddol berthnasol y mae'n rhaid i awdurdodau lleol gydymffurfio â hi wrth sicrhau gwasanaethau. Nid yw'r canllawiau hyn wedi'u bwriadu i ddisodli cyngor cyfreithiol na rhoi eglurhad cynhwysfawr o ddeddfwriaeth berthnasol, a dylai awdurdodau lleol geisio cyngor pellach fel y bo'n briodol.

http://prp.gov.wales/docs/prp/generalgoodsservices/280613ODimpguidanceeng.pdf

### 4.9.7 Tendro ac ail-dendro cystadleuol

Mae'r Rheoliadau Contractau Cyhoeddus (2015) yn nodi rheolau ar gyfer rhai contractau i ddarparu gwasanaethau. Lle y bo'n ymarferol, gall cyrff comisiynu ddewis defnyddio'r 'Gyfundrefn Cyffyrddiad Ysgafn' er mwyn manteisio ar yr hyblygrwydd cynyddol y mae'n ei roi. Fodd bynnag, mae nifer o amodau y mae angen eu bodloni.

### 4.9.8 Hyblygrwydd

Mae gan awdurdodau lleol yr hyblygrwydd i ddefnyddio unrhyw broses neu weithdrefn y maent yn ei dewis i redeg yr ymarfer caffael, cyn belled â'i bod yn parchu'r gofynion deddfwriaethol a nodir uchod.

### 4.9.9 Tendro ac Ail-dendro

Dylai arferion a threfniadau rheoleiddio arferol fod yn berthnasol i wasanaethau newydd.

Dylai gwasanaethau presennol gael adolygiad strategol cadarn a rheolaidd bob tair blynedd. Ni fyddai disgwyl bod gwasanaethau Cefnogi Pobl yn cael eu hail-dendro'n rheolaidd. Dim ond yn dilyn adolygiad strategol o'r gwasanaeth y bydd ymarferion ail-dendro'n digwydd. Lle mae contract i ddarparu gwasanaeth ar fin dod i ben, a bod dim adolygiad strategol wedi cael

ei gynnal yn y deuddeng mis blaenorol, yna argymhellir yn gryf y bydd angen ail-dendro’r gwasanaeth.

Bydd yr adolygiad strategol hwn wedi canfod a yw gwasanaeth yn effeithiol ac yn cyflawni amcanion polisi lleol, rhanbarthol a chenedlaethol, a yw o ansawdd gwael neu’n peidio ag adlewyrchu canllawiau o ran cost dderbyniol ac wedi methu â rhoi sylw i ddiffygion a adnabuwyd. Yn y lle cyntaf, dylid ystyried ail-fodelu fel modd i ailgyflunio gwasanaethau.

Gall Grŵp Cynllunio Cefnogi Pobl ddod i’r casgliad ei bod yn ofynnol ail-dendro contract am nad yw gwasanaethau ar eu ffurf bresennol yn addas ar gyfer y diben. Dylai’r penderfyniad hwn fynd i’r Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol yn gyntaf i gael ei adolygu. O fewn y trefniadau tendro, bydd angen penderfyniad ynghylch y broses ar gyfer newid o hen ddarparwr i ddarparwr newydd. Lle bynnag y bydd darparwr yn newid, mae’n rhaid bod trefniadau’n bodoli i sicrhau bod gan y darparwyr a’r awdurdod lleol gynllun cadarn i drosglwyddo’r gwasanaeth.

Mae gweithrediad parhaus ystod o ddarparwyr lleol sydd â hanes o ddarparu gwasanaethau o ansawdd da sy’n diwallu anghenion y gymuned yn ystyriaeth i sicrhau sefydlogrwydd y sector. Cyn penderfynu ail-dendro contract, dylai Grwpiau Cynllunio Cefnogi Pobl ystyried y materion allweddol canlynol:

- Y modd y gallai’r newid darfu o bosibl ar bobl sy’n defnyddio gwasanaethau Cefnogi Pobl. Lle mae gwasanaethau cymhleth yn cael eu darparu, mae’n rhesymol bod hyn yn cael ei adlewyrchu yn hyd y contract.

- Canlyniad ymgynghori â rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys pobl sy’n defnyddio gwasanaethau Cefnogi Pobl ac unrhyw oblygiadau sy’n deillio o ail-dendro contract mewn perthynas â chytundebau cysylltiedig, e.e. cytundebau tenantiaeth.

- Cost TUPE a goblygiadau’r rheoliadau hynny ar gyfer y gweithlu ehangach

- Hyfywedd ariannol y darparwr. Dylai awdurdod lleol sicrhau ei fod yn cynnal cyswllt â’r awdurdodau lleol eraill hynny y mae darparwyr o’r fath yn gweithredu yn eu hardal, er mwyn iddynt allu adnabod unrhyw faterion sy’n codi.

- Goblygiadau posibl o ran y gost. Dylai Grwpiau Cynllunio Cefnogi Pobl daro cydbwysedd rhwng yr hyblygrwydd a gynigir gan ail-dendro rheolaidd a’r costau a beichiau gweinyddol sy’n gysylltiedig â’r broses a’r amser y mae ei angen i arloesi a gwella effeithlonrwydd ac i ddatblygu perthynas effeithiol â’r darparwr.

- Dylid rhoi pwyslais dyladwy ar barhad gwasanaethau, gallu profedig i ddarparu ac ymrwymiad hirdymor gan ddarparwyr. Dylid cymryd hyn i

ystyriaeth wrth werthuso hyfywedd ariannol cychwyn proses i ail-gaffael gwasanaeth.

Dylid datblygu achos busnes ar gyfer yr opsiwn a ffafrir a dylid ymgynghori â rhanddeiliaid allweddol i sicrhau ei fod yn gynaliadwy ac yn realistig yn y tymor hir.

### 4.9.10 Adolygiad Strategol

Mae'n bwysig dilyn dull tryloyw a chyson o asesu perthnasedd strategol.

Bydd adolygiad strategol yn ystyried y canlynol:

1. Mae'n rhaid bod y gwasanaeth yn:
   - Cyfrannu at amcanion strategol lleol, rhanbarthol a chenedlaethol.
   - Ateb gofynion a chyflawni amcanion manyleb y gwasanaeth.
   - Cyflawni deilliannau sy'n berthnasol i'r Rhaglen Cefnogi Pobl.

2. Mae'n rhaid i anghenion cymorth y grŵp cleientiaid fod yn gymwys ar gyfer cyllid Cefnogi Pobl.

3. Mae'n rhaid i'r gwasanaeth roi cymorth sy'n gysylltiedig â thai a dangos bod y cymorth a roddir yn galluogi, ac yn canolbwyntio ar ddatblygu annibyniaeth person a'i gydnerthedd yn y dyfodol, h.y. 'gwneud gyda' yn hytrach na 'gwneud dros'.

4. Tystiolaeth o'r galw am y gwasanaeth.

### 4.9.11 Datgomisiynu Gwasanaethau Cefnogi Pobl

Bydd angen i Bwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol a'r Grwpiau Cynllunio Cefnogi Pobl lleol wneud penderfyniadau anodd o ran ailgyflunio gwasanaethau i sicrhau bod ganddynt y cydbwysedd cywir o wasanaethau i roi ffocws ar atal digartrefedd a mynd i'r afael â'r amgylchedd cyllido sy'n newid. Bydd angen ystyried a chytuno ar flaenoriaethau strategol ynghyd ag arbedion effeithlonrwydd i fodelu ar gyfer gostyngiadau i Grant y Rhaglen Cefnogi Pobl yn y dyfodol. Bydd angen sefydlu strategaethau rheoli risg i reoli toriadau posibl i gyllid ochr yn ochr ag Asesiadau cynhwysfawr o'r Effaith ar Gydraddoldeb i reoli'r broses a lleihau'r risg i'r rhai sy'n cael gwasanaethau a'r rhai sy'n darparu gwasanaethau.

Mae angen i awdurdodau lleol a Phwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol wneud gostyngiadau'n strategol, gyda'r holl randdeiliaid gan gynnwys, ymhlith eraill: Gwasanaethau Tai, Prawf, Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a darparwyr gwasanaethau.

### 4.9.12 Rhesymau dros Ddatgomisiynu

Mae'n rhaid i'r broses o ddatgomisiynu gwasanaethau cymorth sy'n gysylltiedig â thai a gyllidir trwy Grant y Rhaglen Cefnogi Pobl gael ei chyflawni o ganlyniad i broses eglur a thryloyw a reolir yn dda i leihau risg i'r eithaf ac sy'n ystyried barn rhanddeiliaid.

Y Broses Ddatgomisiynu:

Lle mae'r Tîm Cefnogi Pobl wedi dod i'r casgliad y dylai gwasanaeth a gyllidir â Grant y Rhaglen Cefnogi Pobl gael ei ddatgomisiynu, bydd y Tîm Cefnogi Pobl yn cyflwyno argymhelliad i'r Grŵp Cynllunio Cefnogi Pobl Lleol ac i'r Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol.

Dylai'r cynnig i ddatgomisiynu gwasanaeth gael ei gyflwyno i'r Grŵp Cynllunio Cefnogi Pobl Lleol a'r Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol er mwyn sicrhau bod penderfyniadau i ddatgomisiynu'n cael ystyriaeth deg gan yr aelodau.

Dylai unrhyw gynnig i ddatgomisiynu fod yn seiliedig ar dystiolaeth eglur. Dim ond ar ôl asesiad o berthnasedd strategol y dylid cymeradwyo cynnig i ddatgomisiynu. Mae'n rhaid bod asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb yn rhan o'r broses benderfynu i reoli a lleihau i'r eithaf y risg i'r rhai sy'n cael gwasanaethau. Lle y bo'n briodol dylid datblygu strategaeth ymadael.

Yr awdurdod lleol sydd i wneud y penderfyniad terfynol ynghylch datgomisiynu gwasanaeth a gyllidir â Grant y Rhaglen Cefnogi Pobl.

### 4.9.13 Gweithio gyda Darparwyr Gwasanaethau Cymorth a Rhanddeiliaid

Dylai'r Tîm Cefnogi Pobl ystyried tystiolaeth gan bobl sy'n defnyddio gwasanaethau Cefnogi Pobl ac ystyried eu barn hefyd.

### 4.9.14 Diweddu Contractau

Unwaith y bydd penderfyniad i ddagomisiynu wedi cael ei gymeradwyo, bydd rhybudd ffurfiol yn dilyn gofynion cytundebol. Lle mae darparwr gwasanaethau cymorth wedi rhoi rhybudd ar gontract i'r Tîm Cefnogi Pobl bydd hwn hefyd yn dilyn gofynion cytundebol.

### 4.9.15 Hysbysu Pobl sy'n defnyddio Gwasanaethau Cefnogi Pobl a Rhanddeiliaid

Unwaith y mae'r darparwr contract wedi cael rhybudd diwedd contract, bydd y Tîm Cefnogi Pobl yn gweithio gyda'r darparwr i hysbysu pobl sy'n defnyddio gwasanaethau Cefnogi Pobl ynghylch y penderfyniad. Mae'n rhaid i'r broses hon ystyried natur agored i niwed ac anghenion cymorth pobl sy'n defnyddio gwasanaethau Cefnogi Pobl a fydd yn sail i gynllun rheoli risg.

### 4.9.16 Cyfathrebu

Dylai'r Tîm Cefnogi Pobl sicrhau bod rhanddeiliaid perthnasol yn cael eu cynnwys cyn gynted ag y bydd penderfyniadau strategol wedi cael eu gwneud ac y cyfathrebir gyda hwy'n rheolaidd ac yn briodol.

### 4.10 Codi tâl am wasanaethau Cefnogi Pobl

4.10.1 Penderfyniad i awdurdodau lleol yw codi tâl am wasanaethau Cefnogi Pobl. Mae'r canllawiau isod yn nodi pa ddeddfwriaeth y bydd awdurdodau lleol yn dymuno'i defnyddio o bosibl os byddant yn dewis codi tâl am wasanaethau. Dylai awdurdodau lleol ystyried y costau am gasglu gan ei gymharu â'r incwm a gaiff ei greu wrth godi tâl am wasanaethau. Mae'n rhaid i awdurdodau lleol geisio'u cyngor cyfreithiol eu hunain er mwyn sicrhau eu bod yn gallu codi tâl am wasanaethau Cefnogi Pobl.

4.10.2 **Deddfwriaeth**

1. *Deddf Tai 1985 - Adran 11A (Darparu Gwasanaethau Lles)*

I grynhoi, mewn perthynas â thai a ddarperir gan yr awdurdod lleol, mae adran 11A o Ddeddf Tai 1985 yn amodi y gall awdurdod tai lleol ddarparu gwasanaethau lles i hybu lles pobl y darperir y llety ar eu cyfer. Gall yr awdurdod lleol godi tâl rhesymol am y gwasanaethau lles hyn. Nid yw gwasanaethau lles yn cynnwys atgyweirio, cynnal a chadw, goruchwylio na rheoli tai nac eiddo arall.

2. *Deddf Llywodraeth Leol 2000 - Adrannau 2 (Hybu Lles) a 3 (Cyfyngiadau ar bŵer i hybu lles) ac adran 93 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 (Pŵer i godi tâl am wasanaethau dewisol)*

Mae Adran 2 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 yn amodi y dylai pob awdurdod lleol yng Nghymru fod â'r pŵer i unrhyw beth y mae'n ystyried ei fod yn debygol o gyflawni unrhyw un neu fwy o'r amcanion canlynol – hybu neu wella lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol eu hardal. Mae Adran 3 yn rhoi terfynau i awdurdod lleol o ran y pŵer i hybu lles.

Mae canllawiau statudol wedi cael eu cyhoeddi gan Lywodraeth Cymru yn ddiweddar ynghylch arfer y pwerau hyn. (http://wales.gov.uk/topics/localgovernment/publications/statutory-guidance-ese-la-act-2000/?lang=en).

Mae Adran 93 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 yn amodi y gall awdurdod perthnasol godi tâl ar berson am ddarparu gwasanaeth [ar gyfer y person hwnnw], os yw'r awdurdod wedi'i awdurdodi, gan ddeddf i ddarparu'r gwasanaeth, ond nad yw'n ofynnol iddo wneud hynny, a bod y person wedi cytuno â'r cynnig i ddarparu'r gwasanaeth.

### 4.11 Rheolaeth Ariannol

4.11.1 Mae'r adran hon yn rhoi gwybodaeth fanwl am rolau timau Cefnogi Pobl,

Pwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol, Darparwyr a Llywodraeth Cymru o ran rheoli Grant y Rhaglen Cefnogi Pobl. Mae wedi'i bwriadu i roi cymorth i fynd ati mewn modd effeithlon a chynaliadwy i ddarparu gwasanaethau sy'n gysylltiedig â thai o safon uchel â Grant y Rhaglen Cefnogi Pobl.

4.11.2 Nid yw'r adran hon yn ymdrin â phopeth a all ddigwydd, ond mae'n rhoi crynodeb o'r camau allweddol sy'n rhan o weinyddu'r Rhaglen Cefnogi Pobl yn ariannol.

4.11.3 **Rôl yr Awdurdod Lleol**

Cyfrifoldeb awdurdodau lleol fydd cyflawni a rheoli'r Rhaglen Cefnogi Pobl yn effeithiol a hynny trwy'r canlynol:

- Cyflwyno gwasanaethau Cefnogi Pobl realistig sy'n helpu i greu annibyniaeth a diwallu anghenion a chyrraedd nodau strategol lleol yn ogystal â rhai rhanbarthol.

- Sicrhau bod gwasanaethau o ansawdd yn cael eu darparu, eu bod yn rhoi gwerth am arian, eu bod yn darparu ar gyfer adennill costau llawn yn rhesymol yn seiliedig ar Gynllun Trydydd Sector Llywodraeth Cymru[1] ac yn cydymffurfio â Thelerau ac Amodau'r grant.

- Partneriaeth gyda rhanddeiliaid i ddatblygu strategaethau lleol a rhanbarthol cadarn i adnabod anghenion a blaenoriaethau.

- Rheoli'r broses o gomisiynu a chaffael gwasanaethau yn unol â gofynion cyfreithiol perthnasol, Rheolau Caffael Contractau'r Awdurdodau a chan roi sylw i'r adran *Comisiynu a Chaffael* yn y canllawiau hyn ac unrhyw ganllawiau perthnasol eraill.

- Blaenoriaethu cynlluniau ar sail meini prawf sefydledig a thryloyw, gan gynnwys cynnal Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer yr holl benderfyniadau ynghylch cyllido.

- Darparu Diweddariad Blynyddol sy'n rhoi trosolwg o argymhellion ar gyfer comisiynu, ailfodelu a datgomisiynu am y flwyddyn ariannol ganlynol yn unol â'r Cynlluniau Strategol Rhanbarthol.

- Dethol darparwyr gwasanaethau ar gyfer cynlluniau yn seiliedig ar feini prawf tryloyw a monitro costau darparu gwasanaethau.

- Rheoli alldroeon ar gyfer y Rhaglen.

- Mae angen i awdurdodau lleol gwblhau Tystysgrif Archwilio Llywodraeth Cymru yn unol â'r Telerau ac Amodau Grant ar gyfer y flwyddyn ariannol honno.

[1] http://www.wcva.org.uk/media/818409/final_third_sector_scheme_2014.pdf

- Paratoi Cynllun Gwariant i’w gyflwyno i’r Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol.

- Rheoli unrhyw lithriant/amrywiant yng Ngrant y Rhaglen Cefnogi Pobl os yw’n llai na 10% o gyllideb y categori gwariant/grŵp cleientiaid.

- Ceisio cymeradwyaeth y Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol i amrywiannau sy’n uwch na 10% o gyllideb y categori gwariant neu drosglwyddiadau rhwng awdurdodau lleol.

- Cytuno ar fesurau monitro perfformiad priodol gyda Llywodraeth Cymru.

- Sicrhau bod yr holl ddogfennaeth mewn perthynas â chynlluniau a gyllidir â Grant y Rhaglen Cefnogi Pobl ar gael i Lywodraeth Cymru os yw’n ofynnol.

- Sicrhau bod y Cynllun Gwariant rhanbarthol o fewn y Cynllun Strategol Rhanbarthol yn adlewyrchu lefelau’r angen yn yr ardal leol a rhanbarthol.

- Sicrhau bod data ynghylch Deilliannau’n cael ei gasglu a’i gyflwyno i Lywodraeth Cymru yn y fformat rhagnodedig erbyn 31 Awst a 28 Chwefror yn flynyddol.

- Defnyddio’r data ynghylch Deilliannau i oleuo penderfyniadau comisiynu.

- Cyflwyno’r Dystysgrif Archwilio erbyn 30 Medi bob blwyddyn, sy’n ardystio bod y gwariant a’r wybodaeth am ddeilliannau wedi cael eu dilysu’n briodol.

- Sicrhau bod gan ddarparwyr ymwadiadau priodol i’w gwneud yn bosibl i wybodaeth am gleientiaid fod ar gael at ddibenion ymchwil a gwerthuso.

- Mynd ati’n rheolaidd i adolygu a monitro’r holl gontractau ar gyfer cymorth sy’n gysylltiedig â thai i sicrhau y cydymffurfir â thelerau ac amodau Grant y Rhaglen Cefnogi Pobl, gan ddefnyddio dull sy’n seiliedig ar risg. Dylai adolygiadau ddigwydd bob 3 blynedd a dylai monitro ddigwydd o leiaf yn flynyddol.

- Anogir awdurdodau lleol i ddatblygu deialog barhaus gyda darparwyr gwasanaethau mewn perthynas ag adfachu ac ystyried yr holl ffactorau sydd wedi arwain at unrhyw ddiffyg o ran darparu gwasanaethau a/neu unedau gwag. Gall hyn olygu bod yr awdurdod lleol yn cytuno i ildio’r

adfachiad, lle rhoddir cyfiawnhad rhesymol a hwnnw'n cael ei dderbyn.

- Adfachu ar sail Unedau Gwag – cyfrifoldeb yr awdurdod lleol trwy brosesau monitro a gwerthuso contractau yw rheoli unedau gwag. Mae gan awdurdodau lleol rym i adfachu arian lle mae cyfradd yr unedau gwag wedi mynd y tu hwnt i 10% os **nad oes eglurhad rhesymol** dros yr unedau gwag.

Un enghraifft o arfer da yw **Datganiad Adfachu Gogledd Cymru,** sy'n datgan fel a ganlyn:

***Adfachu Ariannol***

*Bydd yr holl gyllid / grant dan delerau'r contract hwn yn cael ei fonitro mewn adolygiadau rheolaidd o berfformiad.*

*Gall yr awdurdod lleol geisio adennill unrhyw gyllid / grant gan ddarparwyr am y rhesymau canlynol, oni bai y rhoddir cyfiawnhad rhesymol ac y cytunir ar y cyfiawnhad hwnnw:*

1. *Unedau gwag dros 10% - Nifer yr unedau o gymorth heb ei gyflawni*
2. *Oriau Staff heb eu cyflawni*

*Lle mae adfachiad posibl wedi cael ei adnabod bydd hwn yn cael ei gyfrifo ar ddiwedd pob chwarter yn dilyn derbyn y ffurflenni monitro perfformiad; ni fydd unrhyw adfachiad yn cael ei gymhwyso tan ddiwedd Chwarter 4 i roi cyfle ar gyfer gwelliant mewn perfformiad.*

*Bydd yr arian yn cael ei adfer o daliadau yn y dyfodol neu drwy anfoneb os yw'r contract wedi dod i ben a bod dim taliadau'n ddyledus yn y dyfodol.*

### 4.11.4 **Rôl yr Awdurdod Lleol sy'n Cydlynu**

Cyfeirier at Bennod 3 *'Rhedeg y Rhaglen', adran 3.9* i gael arweiniad.

### 4.11.5 **Rôl Pwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol**

Cyfeirier at Bennod 3 *'Rhedeg y Rhaglen', adran 3.8* i gael arweiniad.

### 4.11.6 **Rôl y Darparwr**

Bydd y Darparwr yn:

- Datblygu a darparu gwasanaethau sy'n helpu i greu annibyniaeth.
- Lle y bo'n briodol, cyfeirio at wasanaethau eraill a chysylltu â hwy, e.e. addysg, cyfleoedd ar gyfer cyflogaeth a hyfforddiant.

- Dangos cymhwysedd ariannol a chydymffurfiaeth â'r holl reoliadau a gofynion ariannol.
- Sicrhau gwasanaethau o ansawdd a gwerth am arian.
- Darparu gwybodaeth am gostiadau ac incwm ar gyfer y prosiect.
- Gweithio mewn partneriaeth gyda'r awdurdod lleol a'r Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol.
- Hysbysu'r awdurdod lleol lle mae lefelau'r unedau gwag yn cyrraedd 10%.
- Hysbysu'r awdurdod lleol lle gwneir gwargedion ar gontractau.
- Mynd i'r afael â materion mewn perthynas â chontractau yn y lle cyntaf gydag awdurdodau lleol ac yna Pwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol trwy'r Fforwm Darparwyr Rhanbarthol.
- Hysbysu awdurdodau lleol lle canfuwyd bwlch o ran gwasanaethau ac yna hysbysu'r Pwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol trwy'r Fforwm Darparwyr Rhanbarthol.

### 4.11.7 **Rôl Llywodraeth Cymru**

Mae rôl Llywodraeth Cymru yn cynnwys:

- Cael cynlluniau a gyflwynir gan awdurdodau lleol a Phwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol i'w hystyried.
- Rheoli'r broses o uwchgyfeirio materion na ellir eu datrys trwy gydweithio rhwng y lefelau lleol a rhanbarthol at Ysgrifennydd y Cabinet, trwy'r Bwrdd Cynghori Cenedlaethol Cefnogi Pobl, er mwyn iddynt gael eu harchwilio ymhellach.
- Darparu dyraniadau cyllideb dangosol, yn amodol ar gafeatau priodol.
- Dyrannu adnoddau Grant y Rhaglen Cefnogi Pobl i awdurdodau lleol gan ystyried Cynlluniau Strategol Rhanbarthol. Ceidw Llywodraeth Cymru yr hawl i adolygu dyraniadau i awdurdodau lleol unigol.
- Gweinyddu'r broses o dalu'r grant i awdurdodau lleol.
- Monitro a gwerthuso Grant y Rhaglen Cefnogi Pobl.
- Adolygu'r defnydd o'r grant gan awdurdodau lleol a darparwyr ar sail ad hoc.
- Cynnal gwiriadau sampl o geisiadau ar gyfer prosiectau a thaliadau grant a lle y bo'n briodol adfachu arian grant os na chydymffurfir â thelerau ac amodau Grant y Rhaglen Cefnogi Pobl a bod dim modd unioni hynny.

### 4.11.8 **Cyllideb Grant y Rhaglen Cefnogi Pobl**

Mae Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi ei chyllideb derfynol ar y cyfan ym mis Ionawr bob blwyddyn. Bydd hyn yn cynnwys swm Grant y Rhaglen Cefnogi Pobl.

### 4.11.9 **Dyraniadau**

Bydd Llywodraeth Cymru yn dyrannu Grant y Rhaglen Cefnogi Pobl gan gyfeirio at Gynlluniau Strategol Rhanbarthol yn ôl categori gwariant.

Bydd llythyrau sy'n hysbysu ynghylch dyraniadau Grant y Rhaglen Cefnogi Pobl am y flwyddyn ariannol sydd i ddod yn cael eu hanfon at awdurdodau lleol bob mis Rhagfyr.

Yn dilyn cymeradwyo cyllidebau Llywodraeth Cymru ym mis Ionawr/Chwefror, bydd pob awdurdod lleol yn cael llythyr cynnig Grant y Rhaglen Cefnogi Pobl ym mis Mawrth bob blwyddyn gyda'r grant yn dechrau ym mis Ebrill.

Bydd y cynnig ar ffurf Dyfarniad Grant am y flwyddyn ariannol sy'n dechrau yn y mis Ebrill canlynol.

4.11.10 **Cynlluniau Gwariant, Proses Fonitro a Phroses Grant ar gyfer Grant y Rhaglen Cefnogi Pobl**

Mae'r profforma ar gyfer Cynllun Gwariant yn nodi'r bwriadau gwariant lleol ar gyfer Grant y Rhaglen Cefnogi Pobl am y flwyddyn. Bydd awdurdodau lleol yn cyflwyno'u Cynlluniau Gwariant gyda'u Diweddariadau Blynyddol i gael eu hystyried gan y Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol, a fydd yn ei dro'n ei gyflwyno, fel rhan o'r Cynllun Gwariant a Diweddariad Blynyddol Rhanbarthol wedi'u coladu a fydd yn dangos sut y maent yn cyflawni mewn perthynas â'r Cynllun Strategol Rhanbarthol, i Lywodraeth Cymru er mwyn iddi ei ystyried a dyrannu'r grant. Lle nad yw unrhyw faterion yn gallu cael eu datrys trwy gydweithio rhwng y lefelau lleol a rhanbarthol, byddant yn cael eu huwchgyferirio at Ysgrifennydd y Cabinet, trwy'r Bwrdd Cynghori Cenedlaethol Cefnogi Pobl, er mwyn iddo'u harchwilio ymhellach.

Cydnabyddir bod rhaglenni'n gyfnewidiol ac y byddant yn newid. Dylai awdurdodau lleol gyflwyno datganiadau alldro bob chwe mis (ym mis Gorffennaf a mis Ionawr) mewn perthynas â'u Cynlluniau Gwariant i'r Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol a Llywodraeth Cymru. Lle nad yw unrhyw faterion yn gallu cael eu datrys trwy gydweithio rhwng y lefelau lleol a rhanbarthol, byddant yn cael eu huwchgyferirio at Ysgrifennydd y Cabinet, trwy'r Bwrdd Cynghori Cenedlaethol Cefnogi Pobl, er mwyn iddo'u harchwilio ymhellach.

Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried y Cynlluniau Gwariant rhanbarthol. Bydd perfformiad y Pwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol ac awdurdodau lleol yn cael ei farnu drwy ystyried i ba raddau y mae cynlluniau'n cael eu cyflawni yn unol â'r cynlluniau y cytunwyd arnynt.

Mae'n rhaid i unrhyw newidiadau sylweddol i wasanaeth sy'n newid o fwy na 10% o'r cyfanswm ar gyfer categori gwariant yn y Cynllun Gwariant gael eu gwneud yn hysbys gan yr awdurdod lleol i'r Pwyllgor

Cydweithredol Rhanbarthol er mwyn iddo'u hystyried. Os nad yw'r Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol yn cymeradwyo, bydd yn rhoi cyngor i Lywodraeth Cymru, a fydd yn ystyried eu cymeradwyo. Mae hyn yn un o amodau'r grant a bydd methu ag ymlynu wrth yr amod hwn yn golygu bod yr awdurdod lleol wedi torri amodau'r grant.

Yn achos gwasanaethau nad ydynt wedi'u comisiynu eto, derbynnir ei bod yn bosibl mai symiau dangosol yn unig fydd y symiau gwariant a ddangosir ar gyfer pob categori gwariant unigol yn y Cynllun Strategol Rhanbarthol.

Bydd y Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol yn hysbysu Llywodraeth Cymru ynghylch y gwariant alldro ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Bydd awdurdodau lleol yn cyflwyno'u datganiad gwariant alldro terfynol erbyn diwedd mis Ebrill i'r Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol er mwyn iddo'i gymeradwyo cyn ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru. Bydd monitro gwariant trwy gydol y flwyddyn yn rhan annatod o rôl yr awdurdod lleol a'r Pwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol o ran rheoli'r rhaglen.

Bydd awdurdodau lleol yn gallu arfer y rheolaeth angenrheidiol ar y rhaglen trwy ddethol gwasanaethau Cefnogi Pobl sy'n taro cydbwysedd rhwng blaenoriaethau, anghenion a chyflawnadwyedd rhanbarthol a lleol. Mae angen i wasanaethau fod o fewn cyd-destun y Cynllun Gwariant cytunedig a gymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru – gydag awdurdodau lleol yn meddu ar y gallu i symud cyllid rhwng grwpiau cleientiaid yn ôl cyfradd o hyd at 10% o gyllideb pob grŵp o gleientiaid.

Lle mae angen trosglwyddo cyllid o fewn rhanbarth ond ar draws awdurdodau lleol, yna mae'n rhaid i'r cynnig gael ei gytuno gan yr awdurdodau lleol. Bydd y Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol yn cyflwyno'i argymhellion i Lywodraeth Cymru er mwyn iddi eu hystyried a'u cymeradwyo.

### 4.11.11 **Taliadau Rheoli**

Dylai taliadau rheoli fod mor isel â phosibl, yn gyson â chynnal gwasanaethau cynaliadwy. Dylent hefyd fod yn seiliedig ar gostau gwirioneddol hyd y gellir yn rhesymol gadarnhau a chyfrifo. Ni ddylai taliadau rheoli fod yn fwy na 10% o'r grant i ddarparwr. Fodd bynnag, dylai'r cap weithredu yn ôl yr egwyddor 'cydymffurfio neu egluro'. Lle mae darparwyr yn mynd y tu hwnt i'r cap bydd yn ofynnol iddynt ddarparu dadansoddiadau gwybodaeth llawn o wariant perthnasol gydag esboniadau cysylltiedig sy'n dynodi pam fod eu lefel ar y cyfan un uwch na'r cap, a pha gamau gweithredu y maent wedi'u cymryd i ostwng gwariant.

Ceir ymchwil a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru i daliadau rheoli a chopi llawn o'r adroddiad yma:

http://gov.wales/docs/caecd/research/2015/151019-supporting-people-programme-managment-charges-cy.pdf

Yn eu cyllideb a'u hadroddiadau ariannol dylai'r holl ddarparwyr ac awdurdodau lleol wahaniaethu rhwng:

- Costau darparu rheng-flaen (sy'n cynnwys costau cyflogau perthnasol yn bennaf ond a allai gynnwys costau eraill hefyd gan ddibynnu ar y prosiect).
- Gorbenion sy'n uniongyrchol gysylltiedig â darparu ('costau rhedeg eraill' gan gynnwys eitemau megis argraffu, cludiant, teithio a chynhaliaeth, hyfforddi staff rheng-flaen a.y.b.).
- Gorbenion anuniongyrchol a chanolog (taliadau rheoli).

Mae taliadau rheoli fel arfer yn talu costau (neu gyfran o'r costau) sy'n gysylltiedig â gweithrediad canolog/trefniadaeth ganolog y Darparwr sy'n angenrheidiol i ddarparu'r gwasanaeth (costau corfforaethol). Gall y rhain gynnwys cyfran deg o'r canlynol:

- Costau rheoli a llywodraethu canolog, gan gynnwys gorbenion uniongyrchol ac anuniongyrchol megis gwasanaethau hyfforddi a chymorth.
- Gwasanaethau cymorth cefn swyddfa megis Adnoddau Dynol, Cyllid, Cyfreithiol a Chyfathrebu.
- Gan ddibynnu ar y darparwr a'r prosiect, elfennau megis caffael, cyfleusterau, archwilio, TG, yswiriant, rheoli a sicrhau ansawdd, cyhoeddusrwydd a marchnata, datblygu polisi a materion cyhoeddus, iechyd a diogelwch a gweinyddu a chofnodion.

### 4.11.12 **Cydymffurfiaeth**

Bydd Llywodraeth Cymru yn monitro cydymffurfiaeth awdurdodau lleol trwy delerau ac amodau'r grant a'r Dystysgrif Archwilio Flynyddol. Dylai awdurdodau lleol sicrhau bod ganddynt yr archwiliadau a rheolaethau angenrheidiol i sicrhau cydymffurfiaeth Darparwyr.

# Pennod 5: Dangos Tystiolaeth o Effaith y Rhaglen

## 5.1 Ymchwil a Gwerthuso

5.1.1 Mae monitro a gwerthuso effeithiol yn rhan o ddylunio, comisiynu a dysgu da ar gyfer rhaglenni.

5.1.2 Mae sicrhau gwerthuso effeithiol a system ddeilliannau gadarn yn rhannau hanfodol o brofi effaith y Rhaglen Cefnogi Pobl, o ystyried bod arian cyhoeddus yn dal i fod dan bwysau.

5.1.3 Mae'r Bwrdd Cynghori Cenedlaethol Cefnogi Pobl wedi dirprwyo'r fframwaith ymchwil a gwerthuso i'r Grŵp Llywio Ymchwil a Gwerthuso. Mae disgwyl i holl randdeiliaid y Rhaglen Cefnogi Pobl ymgysylltu ag unrhyw ddarn parhaus o waith ymchwil a gwerthuso sy'n mynd rhagddo ar hyn o bryd.

## 5.2 Grŵp Llywio Ymchwil a Gwerthuso

5.2.1 Bydd y grŵp yn:

- Rhoi cymorth i ddatblygu nodau ac amcanion yr ymchwil/gwerthusiad(au).
- Rhoi cymorth i ddatblygu prosesau gwerthuso cadarn a hygred, trwy roi cyngor ynghylch priodoldeb y dulliau a awgrymir o safbwynt yr amryw sefydliadau/sectorau sy'n rhan o'r grŵp.
- Monitro'r gwerthusiad, o'r dechrau i'r diwedd, gan sicrhau bod cerrig milltir yn cael eu cyrraedd ar amser.
- Codi proffil y gwerthusiad(au) a hyrwyddo ymgysylltiad yn eu sefydliad/sector eu hunain.
- Gweithredu fel cyfrwng rhwng y Grŵp Llywio a'r amryw grwpiau Cefnogi Pobl Cysylltiedig (Y Bwrdd Cynghori Cenedlaethol Cefnogi Pobl, y Rhwydwaith Gwybodaeth Cefnogi Pobl, y Grŵp Deilliannau a Data Cefnogi Pobl).

- Cytuno ar negeseuon allweddol a sut y gall y rhain gael eu cyfleu'n rheolaidd i'r gymuned Cefnogi Pobl ehangach.

5.2.2 Bydd yr holl waith ymchwil yn cael ei drafod a'i roi ar waith fel y bo'n briodol, os oes cyllid ar gael

**5.3 Deilliannau**

5.3.1 Cafodd y Fframwaith Deilliannau Cefnogi Pobl ei roi ar waith ym mis Mawrth 2012, Ers yr amser hwnnw gwnaed mân newidiadau i'r fframwaith ac mae data wedi cael ei gasglu sydd wedi helpu i gryfhau sail wybodaeth y rhaglen. Fodd bynnag, cydnabyddir hefyd bod angen gwneud newidiadau i'r fframwaith presennol i sicrhau eu bod yn berthnasol ac yn addas ar gyfer y diben. Er mwyn cynorthwyo gyda'r gwaith hwn fe sefydlwyd y Grŵp Deilliannau a Data Cefnogi Pobl i ddatblygu fframwaith newydd. Bydd y fframwaith hwn yn elfen ar wahân o'r ymarfer ymgynghori ynghylch Canllawiau'r Rhaglen Cefnogi Pobl ac felly bydd yn cael eu gwblhau ar ôl i'r ymgynghoriad ddigwydd.

**Cwestiynau ynghylch Canllawiau'r Rhaglen Cefnogi Pobl**

**1 A yw'r Canllawiau drafft yn canolbwyntio'n briodol ar unigolion ac a yw'r meini prawf cymhwystra'n eglur? Rhowch reswm dros eich ateb.**

| | |
|---|---|
| **Ydynt** | |
| **Nac ydynt** | |

| |
|---|
| |

**2 A yw'r Canllawiau drafft yn cael effaith gadarnhaol ar gydraddoldeb ar draws y broses o ddatblygu a chomisiynu gwasanaethau? Os nad ydynt, pam?**

| | |
|---|---|
| **Ydynt** | |
| **Nac ydynt** | |

| |
|---|
| |

**3 A yw'r Canllawiau drafft yn darparu fframwaith comisiynu eglur ar gyfer comisiynwyr a darparwyr gwasanaethau Cefnogi Pobl? Rhowch reswm dros eich ateb.**

| | |
|---|---|
| **Ydynt** | |
| **Nac ydynt** | |

| |
|---|
| |

| |
|---|
| |

**4 A yw'r Canllawiau drafft yn ddigon hyblyg i roi anogaeth i arloesi a gwneud y defnydd mwyaf effeithiol o'r gyllideb Cefnogi Pobl? Rhowch reswm dros eich ateb.**

| | |
|---|---|
| **Ydynt** | |
| **Nac ydynt** | |

| |
|---|
| |

**5 Ydych chi'n cytuno bod y Canllawiau drafft yn cryfhau trefniadau llywodraethu Pwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol (e.e. Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol)? Os nad ydych, eglurwch pam.**

| | |
|---|---|
| **Ydw** | |
| **Nac ydw** | |

| |
|---|
| |

**6 A yw'r cyswllt rhwng comisiynu gwasanaethau Cefnogi Pobl a deddfwriaeth Llywodraeth Cymru yn eglur? Rhowch reswm dros eich ateb.**

| | |
|---|---|
| **Ydy** | |
| **Nac ydy** | |

| |
|---|
| |

**7 A yw rôl rhanddeiliaid yn eglur? Os nad ydyw, pam?**

| | |
|---|---|
| **Ydy** | |
| **Nac ydy** | |

| |
|---|
| |

**8 A oes adrannau o'r Canllawiau drafft y gellid eu cryfhau i'w gwneud yn haws i'w defnyddio? Rhowch reswm dros eich ateb.**

| | |
|---|---|
| **Oes** | |
| **Nac oes** | |

| |
|---|
| |

**9. Hoffem wybod eich barn am yr effaith y gallai adolygu'r canllawiau ei chael ar y Gymraeg, ac yn arbennig ar y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.**

**Eglurwch hefyd sut y credwch y gellid llunio neu addasu'r canllawiau diwygiedig fel eu bod yn cael effaith gadarnhaol neu fwy o effaith gadarnhaol ar y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac fel nad ydynt yn cael effaith andwyol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.**

| |
|---|
| |

**10 A oes gennych unrhyw sylwadau eraill ar y canllawiau drafft?**

| |
|---|
| |

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Y RHAGLEN CEFNOGI POBL

# Ymgynghoriad ar ddatblygiad pellach y Fframwaith Deilliannau

**Deilliannau – cefndir a diben yr ymgynghoriad**

**Diben yr ymgynghoriad**

1. Mae gwelliannau pwysig wedi eu gwneud i'r fframwaith deilliannau yn y blynyddoedd diweddar sydd wedi gwella ansawdd y data sy'n dweud beth mae'r rhaglen Cefnogi Pobl yn ei gyflawni dros y bobl sy'n derbyn cymorth. Mae trafodaethau hir wedi bod hefyd am ddatblygu'r fframwaith deilliannau ymhellach ac awgrymodd Rhwydwaith Gwybodaeth y Rhaglen Cefnogi Pobl, gan weithio gyda Cymorth Cymru, newidiadau i'r Fframwaith er mwyn gwneud y deilliannau'n fwy perthnasol, gostwng nifer y deilliannau a gesglir a lleihau'r amser mae'n ei gymryd i adrodd arnynt.

2. Sefydlwyd y Grŵp Deilliannau a Data Cefnogi Pobl i ymateb i'r cais yma ac mae'n cynnwys Swyddogion Llywodraeth Cymru, darparwyr, awdurdodau lleol ac arbenigwyr data. Yn 2015-16, cafodd newidiadau eu gwneud i'r Fframwaith presennol er mwyn gallu dangos tystiolaeth o'r cysylltiadau rhwng y Rhaglen Cefnogi Pobl a digartrefedd. Cynigir bod newidiadau pellach yn cael eu gwneud i'r Fframwaith i gyfateb yn well i amcanion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, a chyda rhaglenni Cymunedau a Threchu Tlodi eraill.

**Beth yw'r prif broblemau gyda'r broses gasglu bresennol?**

## Dychwelyd y data i Lywodraeth Cymru

3. Mae'r Fframwaith presennol wedi cynyddu'r dystiolaeth sydd ar gael o effaith y Rhaglen yn sylweddol. Fodd bynnag, mae nifer o broblemau wedi codi gyda'r fethodoleg ar gyfer casglu data, gan gynnwys;

- pryderon ynghylch gwarchod data a rheoli ansawdd a rheoli data
- amrywiaethau ledled Cymru o ran y ddealltwriaeth o'r cynnydd fesul cam[1] a sut i gasglu tystiolaeth o hyn
- gwybodaeth sydd ar goll neu wedi ei chofnodi'n anghywir (fel gosod deilliannau pan nad oedd wedi ei farcio fel rhywbeth perthnasol i gleient)
- lefelau is o ddychwelyd deilliannau i rai grwpiau cleientiaid
- y posibilrwydd o ddyblygu wrth gyfrif.

4. Ceir adroddiadau fod y gofynion presennol ar awdurdodau lleol i gasglu a gwirio'r wybodaeth yn cymryd cryn amser. Nid yw adnoddau casglu data yn osgoi camgymeriadau yn llwyr ac mae gwahaniaethau ar hyd a lled Cymru o safbwynt deall y derminoleg a ddefnyddir wrth drafod y deilliannau.

5. Mae'r data gwell wedi'n galluogi ni i ddeall yn well pa gefnogaeth sy'n cael ei rhoi i ba 'gategorïau o gleientiaid' (gweler Atodiad 1) a pha mor dda mae pobl yn dod yn eu blaenau tra maen nhw'n cael cymorth.

## Cyfeirnodau Unigryw

6. Pan gafodd y Fframwaith ei ddatblygu, roedd yn ofynnol defnyddio 'dynodwr unigryw'. Roedd hwn wedi ei greu o dair llythyren gyntaf cyfenw'r cleient, ei ddyddiad geni a M neu F i ddynodi gwryw neu fenyw. Nodwyd fodd bynnag nad oedd y dynodwr yma'n unigryw bob amser ac y gallai dorri rheolau gwarchod data pan gâi ei anfon at Lywodraeth Cymru. Dyma oedd un o'r prif resymau dros ohirio'r cyn 2014.

7. Ers hynny, cafwyd trafodaethau pellach a gwnaed awgrym gwahanol, sef defnyddio rhif Yswiriant Gwladol, sy'n ddynodwr unigryw a hefyd, pan fydd wedi ei ynysu oddi wrth unrhyw ddata arall, yn golygu llai o risg o safbwynt pryderon am warchod data. Mae'r rhif Yswiriant Gwladol yn cael ei ddefnyddio hefyd mewn rhannau eraill o Lywodraeth Cymru ac adrannau eraill o Lywodraeth y DU. Deallir efallai na fydd gan rai pobl ifanc 16 oed Rif Yswiriant Cenedlaethol pan maent yn dechrau cael cymorth.

8. Deallir hefyd y bydd yn rhaid gofyn i bob person a ellir defnyddio eu manylion personol, fel eu Rhif Yswiriant Gwladol. Gyda hyn mewn golwg, mae'n rhan orfodol o gytundebau awdurdodau lleol bellach eu bod yn sicrhau bod darparwyr yn defnyddio

ymwadiad priodol i sicrhau bod pobl yn deall y gellid defnyddio eu gwybodaeth, fel arfer yn ddienw, at ddibenion ymchwil a dadansoddi data yn ogystal â helpu i siapio a gwella gwasanaethau.

**Beth ydyn ni'n cynnig ei newid?**

9. Cynigir y dylid cryfhau ffocws y deilliannau ar amcanion y Rhaglen er mwyn lleihau nifer y deilliannau a rhoi diffiniadau a chanllawiau clir.

10. Cynigir y dylid canolbwyntio ar yr unigolyn, ond gan barhau i adrodd gwybodaeth allweddol ystyrlon i Lywodraeth Cymru.

11. Cynigir y dylid gostwng nifer y deilliannau o 11 i 7. Bydd rhain yn canolbwyntio ar y deilliannau mwyaf perthnasol o'r data sy'n cael ei gasglu ar hyn o bryd, ond hefyd y rheiny sy'n gysylltiedig ag amcanion y Rhaglen, atal digartrefedd a blaenoriaethau'r Llywodraeth. Dangosir y fframwaith deilliannau a gynigir isod. Dylid nodi nad y bwriad yw i'r rhestr o ddyheadau cleientiaid a awgrymir isod fod yn hollgynhwysol a bod pethau eraill a allai fod yn bwysicach i'r unigolyn.

12. Cynigir ymhellach fod tystiolaeth o gleientiaid yn gwireddu eu huchelgais yn cael ei chasglu yn ystod y cam cynllunio ac adolygu cymorth ac y bydd yn dibynnu'n drwm ar adroddiadau gan y cleient ei hun. Bydd rôl y gweithiwr cymorth a sgiliau'r gweithiwr hwnnw yn bwysig er mwyn sicrhau bod problemau'n cael eu hadnabod a'u cofnodi'n gywir.

**Tabl 1 Y Fframwaith Deilliannau a Gynigiwn**

| **Dangosyddion Deilliannau a Gynigir** | **Canfyddiadau a neu ddyheadau'r cleient** | **ALl yn adrodd i Lywodraeth Cymru** |
|---|---|---|
| Pobl yn teimlo'n ddiogel | • Dwi'n teimlo'n ddiogel<br>• Mae gennyf berthynas bositif gyda ffrindiau a theulu | • Nifer a/neu % y rhai a gynorthwyir sy'n teimlo'n ddiogel |
| Pobl yn gallu rheoli eu harian | • Dwi'n gwybod sut i dalu/Rydw i'n talu fy miliau<br>• Dydw i ddim yn poeni sut y byddaf yn talu fy miliau na'm dyledion am fod gennyf reolaeth dros fy miliau a'm dyledion<br>• Mae fy nghyllideb dan fy rheolaeth i | • Nifer a/neu % y cleientiaid a gynorthwyir y mae eu sefyllfa ariannol wedi sefydlogi a/neu wella |
| Mae gan bobl lety a gallant ei reoli<br><br>Pobl nad ydynt mewn perygl o fod yn ddigartref yn fuan | • Mae gen i lety sy'n ateb fy anghenion ac sy'n debyg o bara 6 mis neu ragor<br>• Gallaf reoli fy sefyllfa llety<br>• Dwi mewn llety dros dro sy'n debyg o bara llai na 6 mis tra rydw i'n cael cymorth i chwilio am gartref mwy parhaol | • Nifer a/neu % y bobl sydd â llety addas sy'n debyg o bara o leiaf 6 mis<br>• Nifer y bobl sydd dan ddyletswydd A66<br>• Nifer y bobl sy'n ddigartref dan A73<br>• Nifer a/neu % y bobl sy'n cael cymorth mewn llety dros dro am gyfnod byr sy'n debyg o bara llai na 6 mis |
| Mae pobl yn ymgymryd ag addysg a/neu hyfforddiant | • Dwi'n astudio am gymhwyster fydd ar lefel 2<br>• Dwi'n ymgymryd â dysgu | • Nifer y bobl sy'n ymgymryd ag addysg a/neu dysgu i lefel 2 neu uwch *<br>• Nifer y bobl sydd wedi cael eu cynorthwyo i ymgymryd â gweithgarwch dysgu a allai gynnwys hyfforddiant sgiliau sylfaenol ond sy'n is na lefel 2 |
| Cyflawni gwaith cyflogedig/gwirfoddol | • Dwi'n gweithio neu'n gwirfoddoli | • Nifer a/neu % y bobl sydd wedi cael swydd<br>• Nifer a/neu % y bobl sy'n gwirfoddoli |
| Yn Gorfforol Iach | • Dwi'n cymryd camau i geisio rheoli fy iechyd corfforol<br>• Mae fy nghyflwr iechyd corfforol dan reolaeth | • Nifer a/neu % y bobl sy'n cael help i reoli eu cyflwr iechyd corfforol |
| Yn Feddyliol Iach | • Dwi'n teimlo'n bositif ac yn gallu ymdopi â'm pryderon o ddydd i ddydd<br>• Dwi'n teimlo y gallaf ymdopi â phryderon beunyddiol yn ogystal â sioc, straen ac ansicrwydd<br>• Dwi'n gwybod lle i gael help os ydw i'n teimlo fod ei angen arnaf. | • Nifer a/neu % y bobl mae eu lles meddyliol/emosiynol wedi gwella |

*Gall addysg Lefel 2 gynnwys y canlynol: TGAU (graddau A*-C), Lefelau O (graddau A-C), CSE (gradd 1), Gwobr, Tystysgrif, Diploma (City & Guilds, CACHE, OCR, BTEC/Edexcel/Pearson), Saesneg i Siaradwyr Ieithoedd Eraill (ESOL), NVQ Lefel 2, Diploma/Tystysgrif Cenedlaethol, Prentisiaeth ganolradd, Sgiliau Gweithredol Sgiliau Hanfodol, Cerddoriaeth (graddau 4-5).

13. Dim ond deilliannau sy’n berthnasol iddyn nhw y bydd disgwyl i bobl eu dewis.

14. I sicrhau fod y deilliannau’n rhai ystyrlon, cynigir y dylid casglu’r pwynt cychwynnol, h.y. ydych chi mewn gwaith cyflogedig, yw hwnnw’n llawn amser neu’n rhan-amser, ydych chi’n gwneud gwaith gwirfoddol, ydych chi’n cymryd rhan mewn addysg neu ddysgu ar hyn o bryd, beth yw eich sefyllfa o ran tai ar hyn o bryd? Er bod y rhain yn bethau sy’n cael eu casglu fel mater o drefn gan rai darparwyr ac awdurdodau lleol o bosibl, nid ydynt cael eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru o’r blaen a byddai gwneud hynny’n golygu bod gennym well dealltwriaeth o’r llinell sylfaen i’r deilliannau sy’n cael eu dewis fel rhai perthnasol i’r unigolyn. Yn y pen draw byddai’n gwneud canlyniadau’r deilliannau’n fwy ystyrlon.

15. Cynigir ymhellach bod proses 3 cham yn cael ei chyflwyno yn lle’r broses 5 cam bresennol a fydd yn ystyrlon i’r cleient hefyd. Gallai hyn fod yn ‘Fe fyddwn yn hoffi gweithio tuag at x’ (gan ddangos fod y deilliant felly’n berthnasol i’r unigolyn ar hyn o bryd), ‘Rydw i’n gweithio tuag at’ (byddai hyn yn dangos fod unigolyn wedi dechrau gweithio tuag at gyflawni ei ddeilliannau perthnasol), a ‘Rydw i wedi cyflawni’ (a fyddai’n golygu nad yw’r deilliant bellach yn berthnasol ar gyfer y cyfnod nesaf). Ni fydd pob dyhead yn cael ei gyflawni ac fe allai eu perthnasedd newid drwy gydol y cyfnod cymorth.

## Cydraddoldeb

16. Ychydig o ddata sydd gan Lywodraeth Cymru ar hyn o bryd ynghylch y ffordd mae’r Rhaglen hon yn adnabod a mynd i’r afael â meysydd anghydraddoldeb. Fodd bynnag fel rhan o Delerau ac Amodau’r Grant, mae gofyn i awdurdodau lleol gynnal asesiadau o’r effaith ar gydraddoldeb, “Blaenoriaethu cynlluniau ar sail meini prawf sydd wedi eu sefydlu ac sy’n dryloyw gan gynnwys cynnal Asesiad o’r Effaith ar Gydraddoldeb a sut mae Grant Rhaglen Cefnogi Pobl yn cael ei ddyrannu” (wedi ei gymryd o Ganllawiau’r Rhaglen Cefnogi Pobl 2012).

17. Cynigir y dylid casglu gwybodaeth sylfaenol am gydraddoldeb sy’n cynnwys y nodweddion gwarchodedig, isod:

- Oedran
- Dyddiad geni
- Anabledd
- Ailbennu rhywedd (y broses o drosglwyddo o un rhyw i’r llall)
- Priodas a phartneriaeth sifil (gan gynnwys priodasau a phartneriaethau o’r un rhyw)
- Beichiogrwydd a mamolaeth
- Hil (lliw, cenedligrwydd)

- Crefydd a chred (a’r rhai sydd heb gred)
- Rhyw (dyn neu fenyw)
- Cyfeiriadedd rhywiol

18. Byddai’r wybodaeth hon yn cael ei dychwelyd i Lywodraeth Cymru ar ffurf cyfranredol i alluogi Llywodraeth Cymru i fonitro’r Rhaglen o ran gofynion cydraddoldeb.

## Casglu tair lefel o ddata

19. Ar hyn o bryd mae 19 categori o gleientiaid (gweler Atodiad 1) a chynigir ein bod yn parhau i gasglu gwybodaeth am y tri phrif gategori o gleientiaid/maes cymorth, gyda’r gefnogaeth fwyaf perthnasol (e.e. Iechyd Meddwl) yn cael ei dangos fel yr angen arweiniol, ac anghenion cymorth eraill yn cael eu dangos fel anghenion eilaidd neu drydyddol. Bydd hyn yn ein galluogi i ddeall yn well pa gymorth amrywiol sydd ei angen ar unigolyn. Bydd hyn yn canolbwyntio ar anghenion yr unigolyn hefyd, ac nid ar y gwasanaeth mae’r unigolyn wedi ei atgyfeirio iddo.

## Gwasanaethau tymor hir a thymor byr

20. Nid yw’r casglu data presennol yn gwahaniaethu o gwbl rhwng gwasanaethau tymor hir a thymor byr a’r deilliannau sy’n gysylltiedig â’r gwasanaethau hyn. Nid oes ffordd chwaith o gasglu tystiolaeth ynghylch pobl sydd efallai’n derbyn gwasanaethau am gyfnod byr iawn ond ychydig o wybodaeth am ddeilliant sydd wedi ei chofnodi ar eu cyfer.

21. Ar gyfer gwasanaethau sy’n para am gyfnod byr iawn, llai na mis, lle na chafwyd llawer o gyfle i gasglu deilliannau, ac o bosib lle mae’r ffocws wedi bod ar helpu pobl drwy eu hatgyfeirio at gefnogaeth berthnasol yn rhywle arall, cynigir ein bod yn gofyn cwestiwn syml fel *‘faint o bobl a welwyd ‘ar gais’, am gyfnod o lai na mis, lle na chofnodwyd unrhyw ddeilliannau?*’ Bydd hyn yn rhoi dealltwriaeth gliriach o faint o bobl sy’n cysylltu â gwasanaethau ond nad oes arnynt angen y lefel lawn o gefnogaeth allai fod ar gael iddynt, neu y gellir eu helpu dros gyfnod byr iawn o amser.

22. Mewn gwasanaethau sy’n debyg o bara dros ddwy flynedd, rydym yn gwybod bellach nad yw adolygiadau 6 mis yn digwydd bob 6 mis. Er nad yw hyn yn cydymffurfio â gofynion y Fframwaith Deilliannau mae’n debyg mai ychydig o newid fyddai o un cyfnod i’r llall yn y wybodaeth a gesglir a/neu a adroddir am ddeilliannau. Mae hyn yn arbennig o wir am bobl ag anabledd dysgu a phobl hŷn. Nid yw’n glir, ym mhob achos, a fyddwn yn gwybod a yw’r gefnogaeth yn debygol o bara dros ddwy

flynedd ai peidio ac, yn hynny o beth, gallai deilliannau ar y pwynt cefnogi cychwynnol fod yn wahanol i'r hyn fyddai'n ofynnol yn y tymor hirach. Fodd bynnag, unwaith mae'n glir fod y gefnogaeth yn debygol o fod dros gyfnod hir, neu bron yn barhaol, a oes gofyn cael deilliannau bob 6 mis ac a yw'r deilliannau'n berthnasol i'r bobl sy'n derbyn y gwasanaeth? Mae hyn yn arbennig o berthnasol i bobl sy'n byw mewn llety â chymorth.

## Cefnogaeth benodedig /fel y bo'r angen

23. Ar hyn o bryd rydym yn casglu data sy'n seiliedig ar y cymorth sy'n cael ei darparu mewn lleoliad h.y. cefnogaeth benodedig neu fel y bo'r angen. Credir bod cefnogaeth benodedig yn fwy adweithiol yn gyffredinol, yn cefnogi pobl unwaith maen nhw wedi cyrraedd 'pwynt argyfwng', er nad ym mhob achos. Mae cefnogaeth fel y bo'r angen yn tueddu i fod yn fwy ataliol ei natur, ac yn unol ag amcanion Deddf Tai (Cymru) 2014 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

24. Mae'r wybodaeth yn werthfawr ar hyn o bryd i'n helpu i weld sut mae'r cymorth a roddir yn newid mewn ymateb i newidiadau yn y gyllideb a deddfwriaeth newydd. Fodd bynnag, ai cefnogaeth 'benodedig' neu 'fel y bo'r angen' yw'r derminoleg orau bellach i ddisgrifio'r ffyrdd yma o ddarparu gwasanaethau mewn ffordd y mae modd i bobl ei deall yn hawdd y tu allan i'r rhaglen a'r tu allan i faes tai? A ddylid rhoi mwy o ffocws ar 'ataliol' ac 'adweithiol'?

## Cronfa Ddata Newydd

25. Cynigir y byddai cronfa ddata, i'w defnyddio gan bawb ledled Cymru, o fudd o ran helpu i leihau nifer y camgymeriadau wrth gofnodi data. Bydd hefyd yn helpu i gyflymu'r broses ddilysu ac, mewn egwyddor, yn rhoi darlun o'r bobl sy'n defnyddio gwasanaethau ar unrhyw adeg benodol. Fodd bynnag, er bod cytundeb cyffredinol y byddai cronfa data o ddefnydd, nid yw'n glir sut y gellid ariannu hyn. Cafwyd awgrym y gallai Llywodraeth Cymru ystyried ariannu datblygiad y gronfa ac y gellid ariannu'r costau rhedeg blynyddol drwy'r awdurdodau lleol. Y cyfiawnhad dros hyn fyddai gostyngiad sylweddol yn yr amser y gallai cronfa ddata ei arbed o ran casglu a dilysu deilliannau, gan adael amser i staff ei dreulio ar waith arall sy'n ymwneud â'r Rhaglen.

26. Fodd bynnag, pe bai cronfa ddata yn cael ei chreu byddai'n rhaid iddi gael ei defnyddio'n gyson drwy Gymru gyfan. Byddai hyn yn golygu hefyd bod angen dod o hyd i atebion TG priodol fel y gall gael ei defnyddio'n effeithiol gan awdurdodau lleol a darparwyr.

27. Byddai defnyddio cronfa ddata, mewn egwyddor, yn golygu y gallem leihau nifer y categorïau cleientiaid sy'n cael eu defnyddio ar hyn o bryd gan y byddai

gwybodaeth am bethau fel oedran person gennym eisoes, a gallai sicrhau bod gennym wybodaeth sy’n egluro pam mae angen cymorth arnynt.

**CWESTIYNAU'R YMGYNGHORIAD YNGHYLCH DEILLIANNAU CEFNOGI POBL**

## Beth ydyn ni'n cynnig ei newid?

1. **Ydych chi'n cytuno mai'r deilliannau a'r dyheadau cleientiaid a gynigir ydy'r rhai iawn (Tabl 1 Y Fframwaith Deilliannau a Gynigir)?**

| | |
|---|---|
| Ydw | |
| Nac ydw | |

**Rhowch reswm dros eich ateb.**

2. **Ydych chi'n cytuno â'r wybodaeth llinell sylfaen rydym yn ei chynnig, e.e. Mae gen i swydd, dwi mewn addysg/yn dysgu, mae fy llety'n debygol o fod yn sefydlog am o leiaf 6 mis (gyda chymorth)? Oes yna wybodaeth llinell sylfaen arall y dylid ei chasglu (Paragraff 14)?**

| | |
|---|---|
| Ydw | |
| Nac ydw | |

**Rhowch reswm dros eich ateb.**

3. **I ba raddau ydych chi'n cytuno y dylai pobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau hysbysu darparwyr eu hunain am lwyddiant eu deilliannau ac y gellir cael y wybodaeth hon yn yr adolygiad (Paragraff 12)?**

**Cytuno'n gryf**
**Cytuno**
**Ddim yn cytuno nac anghytuno**
**Anghytuno**

**Anghytuno'n gryf**

**Rhowch reswm dros eich ateb.**

| |
|---|
| |

## Cyfeirnodau Unigryw

4. **Ydych chi'n cytuno y dylid defnyddio rhif Yswiriant Gwladol fel y dull adnabod unigryw (Paragraff 6-8)?**

| | |
|---|---|
| Ydw | |
| Nac ydw | |

**Rhowch reswm dros eich ateb gan gynnwys eich awgrym ar gyfer cyfeirnod unigryw gwahanol os ydych chi'n anghytuno.**

| |
|---|
| |

## Cydraddoldeb

5. **I ba raddau ydych chi'n cytuno bod angen defnyddio mwy ar y wybodaeth ynglŷn â chydraddoldeb i sicrhau cyfle cyfartal ac i helpu i siapio'i gyfeiriad yn y dyfodol (Paragraff 16-18)?**

**Cytuno'n gryf**
**Cytuno**
**Ddim yn cytuno nac anghytuno**
**Anghytuno**
**Anghytuno'n gryf**

**Rhowch reswm dros eich ateb.**

## Casglu tair lefel o ddata

6. **I ba raddau ydych hi'n cytuno ei bod hi'n dal i fod yn briodol casglu anghenion arweiniol, eilaidd a thrydyddol (Paragraff 19)?**

   **Cytuno'n gryf**
   **Cytuno**
   **Ddim yn cytuno nac anghytuno**
   **Anghytuno**
   **Anghytuno'n gryf**

   **Rhowch reswm dros eich ateb.**

## Gwasanaethau Tymor Hir a Thymor Byr

7. **I ba raddau ydych chi'n cytuno ei bod hi'n briodol dechrau casglu tystiolaeth am y bobl sy'n derbyn gwasanaethau dros gyfnod byr iawn o lai na mis (Paragraff 21)?**

   **Cytuno'n gryf**
   **Cytuno**
   **Ddim yn cytuno nac anghytuno**
   **Anghytuno**
   **Anghytuno'n gryf**

7a **Os felly ydych chi'n cytuno fod y cwestiwn a gynigir yn iawn?** *'faint o bobl a welwyd 'ar gais', am gyfnod o lai na mis, lle na chofnodwyd unrhyw ddeilliannau?*

| | |
|---|---|
| Ydw | |
| Nac ydw | |

**Rhowch reswm dros eich ateb.**

8. **A yw mesurau'r deilliannau a gynigir yn briodol i bobl mewn llety â chymorth hirdymor (Paragraff 22)?**

| | |
|---|---|
| Ydynt | |
| Nac ydynt | |

**Rhowch reswm dros eich ateb. Os ydych yn teimlo nad yw mesurau'r deilliannau yma'n briodol, allwch chi egluro pam a beth allai fod yn gynnig gwahanol?**

9. **Beth fyddai'n ddeilliant addas ar gyfer gwasanaethau hirdymor? A fyddai hyn yn addas "*mae'r gefnogaeth rydw i'n ei chael yn fy helpu i aros yn fy nghartref fy hun*" – y nifer a/neu'r % o bobl mewn llety â chymorth sy'n cael cymorth i'w helpu i aros yn eu cartref eu hunain?**

| | |
|---|---|
| Byddai | |
| Na fyddai | |

**Rhowch reswm dros eich ateb.**

10. Oes gennych chi unrhyw sylwadau eraill ynglŷn â deilliannau ar gyfer gwasanaethau tymor hir?

## Cymorth benodedig/fel y bo'r angen

11. A ddylid newid y termau 'penodedig' a 'fel y bo'r angen' i 'adweithiol' ac 'ataliol' (Paragraff 23-24)?

| | |
|---|---|
| Dylid | |
| Na ddylid | |

Rhowch reswm dros eich ateb.

## Offeryn Casglu Data

12. Ydych chi'n teimlo y byddai'n fuddiol cael cronfa ddata i Gymru gyfan (Paragraff 25-27)?

| | |
|---|---|
| Ydw | |
| Nac ydw | |

Rhowch reswm dros eich ateb.

**12a Os ateboch ydw, yw eich sefydliad chi'n barod i wneud y newidiadau TG gofynnol i alluogi i hynny ddigwydd? Yw eich sefydliad chi'n barod i ariannu'r gost flynyddol o redeg y gronfa ddata?**

| | |
|---|---|
| **Ydy** | |
| **Nac ydy** | |

**13. Hoffem wybod eich barn am yr effaith y gallai adolygu'r fframwaith deilliannau ei chael ar y Gymraeg, ac yn arbennig ar y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.**

**Eglurwch hefyd sut y credwch y gellid llunio neu addasu'r fframwaith diwygiedig fel ei fod yn cael effaith gadarnhaol neu fwy o effaith gadarnhaol ar y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac fel nad yw'n cael effaith andwyol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.**

**14. A oes unrhyw beth arall ynglŷn â'r ymgynghoriad hwn yr hoffech wneud sylw yn ei gylch?**

**Atodiad Un**

1. **Gwasanaethau Larwm (gan gynnwys llety â chefnogaeth/gofal ychwanegol)**
2. **Teuluoedd ag Anghenion Cymorth**
3. **Cymorth Cyffredinol fel y bo'r angen i atal digartrefedd (gwasanaethau cymorth i denantiaid sy'n cynnwys casgliad o wasanaethau sy'n cwmpasu amrywiaeth o anghenion defnyddwyr ond nad yw'n cynnwys cymorth mewn lleoliad penodol)**
4. **Dynion sy'n dioddef Cam-drin Domestig**
5. **Pobl dros 55 oed sydd ag anghenion Cymorth (ond rhaid i'r categori beidio â chynnwys gwasanaethau larwm)**
6. **Pobl â Salwch Cronig (gan gynnwys HIV, Aids)**
7. **Pobl â Hanes o Droseddu**
8. **Pobl ag Anhwylder Datblygiadol (h.y. Awtistiaeth)**
9. **Pobl ag Anableddau Dysgu**
10. **Pobl â Phroblemau Iechyd Meddwl**
11. **Pobl ag Anableddau Corfforol a/neu Synhwyraidd**
12. **Pobl â Statws Ffoadur**
13. **Pobl â Phroblemau Camddefnyddio Sylweddau (Alcohol)**
14. **Pobl â Phroblemau Camddefnyddio Sylweddau (Cyffuriau a sylweddau anweddol)**
15. **Teuluoedd Un Rhiant ag Anghenion Cymorth**
16. **Pobl Sengl ag Anghenion Cymorth**
17. **Menywod sy'n dioddef Cam-drin Domestig**
18. **Pobl Ifanc sy'n Gadael Gofal**
19. **Pobl Ifanc ag Anghenion Cymorth (16-24)**

**Rhowch bennawd yn ymwneud â'r cwestiynau**

## Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad

Eich enw:

Sefydliad (lle bo'n berthnasol):

E-bost / rhif ffôn:

Eich cyfeiriad:

**Cwestiwn XX**: Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydyn ni wedi mynd i'r afael â nhw, defnyddiwch y lle hwn i wneud hynny:

Rhowch eich sylwadau yma:

Mae ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu gwneud yn gyhoeddus, ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddienw, ticiwch yma: ☐